

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD		NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH		THE EXECUTIVE	
DYDD MAWRTH 24 MAWRTH 2026 10.00 o'r gloch		TUESDAY 24 MARCH 2026 10.00 am	
YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM		COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGFNI AND VIRTUALLY VIA ZOOM	
Swyddog Pwyllgor		Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/The Party of Wales

Neville Evans, Carwyn E Jones, Dyfed Wyn Jones, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group

Dafydd Roberts, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

3 MATERION BRYS ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

4 COFNODION (Tudalennau 1 - 18)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2026.

5 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH (Tudalennau 19 - 26)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

6 MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3, 2025/26 (Tudalennau 27 - 46)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Adnoddau Dynol, Cyfathrebu a Phrofiad y Cwsmer.

7 FFRAMWAITH AR GYFER RHYDDHAD TRETHI BUSNES DEWISOL - ELUSENNAU A SEFYDLIADAU DIELW (Tudalennau 47 - 56)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2026-2056 (Tudalennau 57 - 84)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

9 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD (Tudalennau 85 - 88)

Ystyried mabwysiadau'r canlynol; -

“Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, mae modd cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwna Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd eithriad ohoni.”

MEWNOLI'R GWASANAETH ADY A CHYNHWYSIANT AR YNYS MÔN
(Tudalennau 89 - 256)

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

This page is intentionally left blank

Y PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yn yr Ystafell Bwyllgor ac ar-lein drwy Zoom ar 24 Chwefror, 2026

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd) (Cadeirydd) Y Cynghorwyr Neville Evans, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Nicola Roberts, Ieuan Williams.
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Dirprwy Brif Weithredwr Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitem 10) Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitemau 18 a 18) Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitemau 19 a 20) Pennaeth Democratiaeth Prif Swyddog Diogelu'r Cyhoedd (ar gyfer eitem 18) Prif Swyddog Eiddo ac Asedau (MH)(ar gyfer eitem 20) Swyddog Pwyllgor (ATH) Swyddog Gwe-ddarlledu (FT)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmeriaid)
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Jeff Evans (Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol) (ar gyfer eitemau 12, 13 a 20), Glyn Haynes, Aled M. Jones, R. Llewelyn Jones

1. YMDDIHEURIADAU

Nodwyd yr ymddiheuriad am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT

3. MATERION BRYN A ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG

Dim i'w adrodd.

4. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2026 i'w cadarnhau.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Ionawr, 2026 fel rhai cywir.

5. BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a oedd yn cynnwys Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod rhwng Mawrth a Hydref, 2026 i'w gadarnhau.

Rhoddodd y Pennaeth Democratiaeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Gwaith ar y newidiadau canlynol i'r Blaenraglen Waith –

- Datblygiad Gogledd Ynys Môn – cytunwyd ar fenter ar y cyd â Llywodraeth Cymru fel eitem newydd ar gyfer cyfarfod mis Mai 2026.
- Mae adroddiadau perfformiad a monitro cyllideb Chwarter 1 2026/27 yn eitemau newydd ar gyfer cyfarfod Medi 2026.

Penderfynwyd cadarnhau Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith wedi'i diweddarau ar gyfer y cyfnod rhwng Mawrth a Hydref 2026, gyda'r newidiadau y cyfeiriwyd atynt yn y cyfarfod.

6. MONITRO CYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 3 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 3, 31 Rhagfyr 2025 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, adroddiad monitro cyllideb refeniw Chwarter 3 gan nodi bod y sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yn dangos tanwariant o £1.865m (0.95%). Er bod y sefyllfa ar ddiwedd y trydydd chwarter yn darparu mwy o sicrwydd ac yn seiliedig ar naw mis o incwm a gwariant gwirioneddol, gallai sawl ffactor ddylanwadu ar yr alldro terfynol o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau yn y galw am wasanaethau, yn enwedig gofal cymdeithasol; gwariant untro annisgwyl, heriau recriwtio a chadw staff sy'n arwain at swyddi gwag uwch na'r disgwyl, amodau tywydd annisgwyl a derbyn cyllid grant ychwanegol posibl yn y chwarter olaf.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod sefyllfa gyfunol gyffredinol gwasanaethau'r Cyngor yn dangos y rhagwelir gorwariant o £0.463m (fel y nodir yn Nhabl 4). Tynnodd sylw at yr amrywiadau yn y gyllideb, gan nodi bod Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn faes pryder gyda gorwariant o £1.625m o ganlyniad i'r nifer cynyddol o blant mewn gofal a chostau uchel lleoliadau. Mae meysydd eraill sy'n gorwario'n cynnwys Cynllunio a Busnes y Cyngor. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau sy'n weddill naill ai o fewn y gyllideb neu'n tanwario a hynny'n bennaf oherwydd swyddi gwag staff, cyllid grant ychwanegol ac incwm ffioedd uwch. Mae'r tanwariant ym maes Gwasanaethau Oedolion yn deillio o nifer o ddigwyddiadau untro sy'n dod i gyfanswm o £2.4m sydd naill ai wedi cynyddu incwm neu wedi lleihau costau. Heb y rhain, byddai'r sefyllfa sylfaenol yn orwariant o £1.2m.

Mae cyllidebau corfforaethol yn gyffredinol yn dangos tanwariant o £1.267m (fel y nodir yn Nhabl 6). Rhagwelir y bydd incwm craidd y Dreth Gyngor £483k yn uwch na'r gyllideb. Disgwylir i bremiwm y Dreth Gyngor gynhyrchu gwared o £578k erbyn diwedd y flwyddyn, yn rhannol yn sgil eiddo'n trosglwyddo'n ôl i'r Dreth Gyngor o ardrethi busnes yn dilyn newid yn y rheolau cymhwysedd ar gyfer ardrethi busnes i lety hunanarlwyo. Mae perygl o hyd y gallai apeliadau sy'n ymwneud ag eiddo hunanarlwyo leihau incwm, ac mae £900k wedi'i neilltuo mewn cronfa wrth gefn i liniaru'r risg hon.

Nododd y Pwyllgor Gwaith pa mor agos yw'r gyllideb gyffredinol at y gyllideb a osodwyd ar ddechrau'r flwyddyn, gyda dim ond 0.95% o danwariant yn cael ei ragweld, a diolchodd i staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith.

Dywedodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, fod amseriad cyllid grant, yn enwedig pan gaiff ei dderbyn yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, yn parhau i'w rhwystro rhag cynllunio'n strategol, a bod hynny'n bryder a godwyd ers amser maith gyda Llywodraeth Cymru. Ychwanegodd y byddai setliadau aml-flwyddyn a chynnwys cyllid grant yn y prif setliad yn rhoi mwy o sicrwydd i gynghorau, yn hytrach na derbyn dyraniadau grant ad-hoc ar hyd y flwyddyn.

Penderfynwyd -

- **Nodi'r sefyllfa a nodir yn Atodiadau A, B ac C yr adroddiad mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2025/26, y manylir arnynt yn Atodiad CH.**
- **Nodi'r modd y caiff costau asiantaeth ac ymgynghorwyr eu monitro ar gyfer 2025/26 yn Atodiadau D a DD.**

7. MONITRO CYLLIDEB GYFALAF – CHWARTER 3 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar ddiwedd Chwarter 3 2025/26 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard adroddiad monitro cyllideb gyfalaf Chwarter 3 gan nodi bod y gyllideb gyfalaf yn parhau i fod yn dynn ac nad oes llawer o sgôp i wario yn ôl disgrisiwn y tu hwnt i gynnal asedau cyfredol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2025/26 yn dod i gyfanswm o £66.945m yn dilyn llithriad a gymeradwywyd, cynlluniau ychwanegol ac addasiadau ariannol. Erbyn diwedd mis Rhagfyr, 2025, roedd £36.673m (55%) o'r gyllideb flynyddol wedi'i wario neu ei ymrwymo, gyda'r CRT wedi gwario 63% o'i gyllideb flynyddol. Rhagwelir tanwariant diwedd blwyddyn o £9.849m ar raglen gyfalaf a chyllideb 2025/26 gyda hyn yn llithriad posibl i raglen gyfalaf 2026/27. Bydd y cyllid cysylltiedig hefyd yn llithro i 2026/27. Amlinellir prif feysydd y tanwariant a ragwelir a'r rhesymau drostynt yn adran 4 o'r adroddiad. Manylir ar gynnydd ar y prif brosiectau a ariennir gan grant yn adran 3 o'r adroddiad.

Tynnodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard sylw at bwysigrwydd prosiectau cyfalaf a ariennir gan grant a chyfeiriodd at ymweliad a wnaed y mis blaenorol i weld cynlluniau a ariennir gan Ffyniant Bro yng Nghaergybi. Nododd yr effaith gadarnhaol y bydd y gwaith uwchraddio yma'n ei chael ar stryd fawr y dref a diolchodd i dîm Gwasanaeth Datblygu Economaidd ac asiantaethau partner am eu gwaith cydweithredol, gan bwysleisio'r manteision sylweddol y mae prosiectau a ariennir gan grantiau o'r fath yn eu cynnig.

Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at ddibyniaeth y Cyngor ar gyllid grant ar gyfer prosiectau cyfalaf, gan nodi bod y broses ymgeisio yn aml yn gystadleuol ac yn gofyn am gapasiti, arbenigedd a mewnbwn sylweddol. Mae'r grantiau hyn yn parhau i fod yn hanfodol i'r Cyngor a'r ynys ac mae'r rhaglen Ffyniant Bro yn dangos gwerth gweithio mewn partneriaeth. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa grantiau yn newid eto gyda chyfnod o ansicrwydd o'n blaenau. Mae diogelu'r arbenigedd sy'n gallu trosglwyddo rhwng rhaglenni wrth i gyfleoedd godi yn hanfodol a bydd yn ffocws yn y misoedd nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol at brosiectau a ariennir gan y CRT gan gynnwys datblygiadau tai newydd, adnewyddu tai presennol a gwaith datgarboneiddio sydd oll yn cefnogi contractwyr lleol a'r economi lleol ehangach. Un prosiect o bwys o fewn y rhaglen yw'r cyfleuster gofal ychwanegol newydd ym Mhorthaethwy.

Penderfynwyd -

- **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn cyllideb gyfalaf 2025/26 yn ystod Chwarter 3.**
- **Cymeradwyo'r cynlluniau ychwanegol gwerth £7.276m i'r rhaglen gyfalaf a newidiadau mewn cyllid, yn unol ag Atodiad C, fydd yn rhoi cyllideb gyfalaf ddiwygiedig o £66.945m ar gyfer 2025/26.**

8. MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 3 2025/26

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y CRT ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Rhagfyr 2025 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd Yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, adroddiad monitro cyllideb CRT Chwarter 3.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar y sefyllfa gyffredinol gan nodi bod y CRT yn dangos bod y refeniw £715k yn well na'r gyllideb a broffiliwyd yn Chwarter 3 2025/26. Y tanwariant refeniw a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn yw £546k, a rhagwelir y bydd gwariant cyfalaf yn dangos tanwariant o £864k. Mae'r diffyg a ragwelir o gyfuno refeniw a chyfalaf bellach yn £8,436k sydd £1,403k yn well na'r disgwyl ac yn lleihau swm y benthyciadau allanol sydd ei angen. Erbyn Chwarter 3, mae cyfanswm o 29 o unedau wedi'u hychwanegu at y stoc dai, gan gynnwys tai sydd newydd eu datblygu yn ogystal ag eiddo presennol a gafaelwyd ac a adnewyddwyd gan y CRT. Mae datblygiadau a chaffaeliadau pellach yn mynd rhagddynt fel y dangosir yn Atodiad C i'r adroddiad.

Roedd balans agoriadol cronfa wrth gefn y CRT yn £7.976m. Roedd y gyllideb yn caniatáu defnyddio £6,820k o'r balans hwn, gan adael yr isafswm lefel balans wrth gefn o £1,155k fel y nodir yng Nghynllun Busnes y CRT. Ar ôl addasu'r gyllideb gyfalaf a grantiau cyfalaf, y diffyg refeniw / cyfalaf net a gyllidebwyd ar gyfer y flwyddyn yw £8,436k. Bydd hyn yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn y CRT a £1,616k mewn benthyciadau allanol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Gary Pritchard at yr heriau sy'n wynebu'r CRT a godwyd yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yr wythnos diwethaf. Er bod y Cyngor yn falch o gynnal rhenti ar lefel is na'r hyn y mae Ymddiriedolaeth Trussell yn ei argymhell fel rhent teg, mae'r ffaith nad yw'n gallu codi rhenti i lefelau cymdeithasau tai yn rhoi pwysau ar y CRT, yn enwedig gan fod disgwyl iddo hefyd ariannu gwelliannau i sicrhau bod y stoc dai yn parhau i fodloni Safonau Ansawdd Tai Cymru.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol fod cyflawni uchelgeisiau'r Cyngor ar gyfer adeiladu, pryniant a datblygiadau newydd ochr yn ochr â buddsoddi yn y stoc bresennol a bodloni gofynion SATC yn parhau i fod yn her sylweddol, yn enwedig gan nad yw incwm refeniw yn cadw i fyny â chostau cynyddol. Mae'r Cyngor yn ddiolchgar am gyllid grant ac yn awyddus i sicrhau bod rhenti yn parhau i fod yn fforddiadwy. Serch hynny, bydd angen gwneud dewisiadau - naill ai rhaid cynyddu incwm grantiau, rhaid llacio gofynion SATC, neu rhaid i'r Cyngor adolygu ei uchelgeisiau. Mae benthycia yn opsiwn arall, ond nid yw'r Cyngor eisiau i'r CRT fod mewn gormod o ddyled.

Penderfynwyd nodi'r canlynol -

- Y sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2025/26.
- Yr alldro a ragwelir ar gyfer 2025/26.

9. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Mae'r datganiad yn nodi sut y bydd y Cyngor yn rheoli ei fenthycia, ei fuddsoddiadau a'i lif arian yn y flwyddyn i sicrhau ei fod yn unol â Chodau Darbodus a Rheoli Trysorlys CIPFA.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cyngorydd Gary Pritchard, yr adroddiad Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 drosolwg o'r adroddiad gan nodi bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi craffu arno a heb gynnig unrhyw newidiadau. Nid yw'r strategaeth yn cynnwys unrhyw newidiadau sylweddol o fersiwn y flwyddyn flaenorol, ond mae'n cyd-fynd â'r Strategaeth Gyfalaf ac yn nodi tri senario gwariant cyfalaf – sylfaenol, uchelgeisiol a delfrydol, ynghyd â goblygiadau benthyca pob un, fel y dangosir yn Nhabl 6 yr adroddiad. Mae Tablau 7a a 7B yn amlinellu'r goblygiadau refeniw i'r Gronfa Gyffredinol a'r CRT yn y drefn honno gyda chostau refeniw yn sylweddol uwch o dan y senario delfrydol.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi defnyddio benthyca mewnol, ond mae'r ffaith bod cronfeydd wrth gefn yn gostwng yn golygu y bydd angen benthyca allanol erbyn diwedd y flwyddyn neu ddechrau'r flwyddyn nesaf. Ni fydd y Cyngor yn benthyca mwy nag y mae ei angen, na chyn bod angen gwneud hynny, a hynny er mwyn elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycir. Bydd hefyd yn osgoi aildrefnu benthyciadau cyfredol, gan fod cyfraddau ad-dalu dyled yn gynnar y PWLB yn parhau i fod yn uchel ac yn fwy nag unrhyw arbedion posibl. Yn hytrach, bydd y Cyngor yn ceisio amseru benthyca allanol i gyd-fynd â gostyngiadau mewn cyfraddau llog.

Mae strategaeth fuddsoddi'r Cyngor yn parhau i flaenoriaethu sicrhau diogelwch a hylifedd adneuron dros elw, gan ddefnyddio gwrthbartïon sy'n dangos teilyngdod i gael credyd yn unig a sicrhau bod gofynion llif arian o ddydd i ddydd yn cael eu bodloni. Mae'r strategaeth hefyd yn nodi'r trefniadau llywodraethu ac adrodd.

Darperir y dangosyddion Darbodus a'r Trysorlys yn Atodiad 10 i'r adroddiad. Mae'r rhain yn cynnwys fforddiadwyedd, bod yn ddarbodus a gosod cyfyngiadau ar gyfer gwariant cyfalaf, dyledion allanol, y meincnod rhwymedigaethau a strwythur aeddfedu benthyciadau.

Penderfynwyd nodi'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2026/2027 ac i drosglwyddo'r datganiad i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylw pellach.

10. FFFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a oedd yn nodi ffioedd arfaethedig cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2026/27 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cyngorydd Neville Evans, Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor adolygu ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol yn flynyddol i gyd-fynd â newidiadau Llywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau. Wrth osod lefelau ffioedd ar gyfer cartrefi gofal y sector annibynnol, rhaid ystyried amryw o ffactorau gan gynnwys amgylchiadau lleol, y pwysau o ran galw a'r ddarpariaeth sydd ar gael.

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn cynnig cynnydd o 5% mewn ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2026/27, gan gynnwys lleoliadau preswyl, preswyl dementia, nyrsio a nyrsio dementia. Mae'r cynnydd hwn yn fwrriadol uwch na chynnydd chwyddiant a nodir gan y fethodoleg ranbarthol (Tabl 1 yr adroddiad) a'r cynnydd i ddarpariaeth fewnol. Mae'r cynnydd uwch yn adlewyrchu'r pwysau ariannol lleol ar ddarparwyr a'r angen i gynnal digon o gapasiti o ran cartrefi gofal. Mae'r ffioedd wythnosol a argymhellir wedi'u hamlinellu yn Nhabl 2 o'r adroddiad ac nid ydynt yn cynnwys cyfraniadau gofal nyrsio am ddim. Maent yn berthnasol i gartrefi sy'n derbyn cyfradd uwch na chyfraddau safonol y Cyngor. Gofynnir i gartrefi sydd eisoes yn derbyn uwchlaw'r cyfraddau safonol rannu gwybodaeth ariannol a fydd yn cael ei hystyried wrth benderfynu ar unrhyw gynnydd ariannol. Bydd eithriadau i'r lefelau ffioedd yn cael eu hystyried pan fo tystiolaeth glir yn dangos nad yw'r ffioedd a osodwyd yn ddigonol mewn unrhyw achos unigol. Cynigir bod penderfyniadau o'r fath yn cael eu dirprwyo i'r Swyddog Adran 151, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ac Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion.

Nododd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod ffioedd Ynys Môn yn gystadleuol yn y rhanbarth ac yn parhau i fod ychydig yn is na chyfartaledd Cymru.

Penderfynwyd -

- **Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu lefel y ffioedd fel a ganlyn:-**
 - **Gofal Preswyl (Pobl Hŷn) - £874.18 yr wythnos**
 - **Preswyl (Dementia) - £976.89 yr wythnos**
 - **Gofal Nyrsio (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £952.07 yr wythnos (heb gynnwys gofal nyrsio di-dâl gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd)**
 - **Nyrsio (Dementia) (Elfen Gofal Cymdeithasol) - £1,125.03 yr wythnos (heb gynnwys gofal nyrsio di-dâl gan yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd).**
- **Awdurdodi'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Cyllid i ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi unigol i ymchwilio i'w cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sail i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd a gytunwyd. Bydd rhaid i'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol Oedolion gytuno ar unrhyw eithriadau o fewn y cyllidebau presennol.**

11. FFIODD A THALIADAU 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys rhestr ffioedd a thaliadau arfaethedig ar gyfer 2026/27 i'w hystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cyngorydd Gary Pritchard yr adroddiad gan nodi bod y Pwyllgor Gwaith wedi gosod amcan fod yr holl ffioedd a thaliadau yn cynyddu 3% ar gyfartaledd ar draws pob gwasanaeth unigol. Mae hyn yn caniatáu i benaethiaid gwasanaeth addasu ffioedd unigol o fwy neu lai na 3%, ar yr amod bod y cynnydd cyffredinol ar gyfer y gwasanaeth yn cyfateb i 3%.

Mae'r holl ffioedd statudol wedi'u cynyddu yn unol â'r symiau a osodwyd gan y corff cymeradwyo perthnasol lle cyhoeddwyd ffigurau wedi'u diweddarau. Lle nad yw'r taliadau diwygiedig wedi'u cadarnhau eto, rhestrir y ffioedd fel rhai "i'w cadarnhau" a byddant yn cael eu diweddarau unwaith y bydd y cyfraddau newydd yn cael eu derbyn. Adroddir ffioedd sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a thai i'r Pwyllgor Gwaith ar wahân.

Penderfynwyd cymeradwyo'r rhestr Ffioedd a Thaliadau ar gyfer 2026/27, fel a amlinellir yn y llyfryn a gyflwynwyd.

12. CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG A CHYLLIDEB 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys cynigion manwl cyllideb referniw 2026/27 i'w adolygu yn derfynol gan y Pwyllgor Gwaith. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith gytuno ar y gyllideb referniw ar gyfer 2026/27, lefel y Dreth Gyngor, y defnydd o gronfeydd wrth gefn a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) wedi'i ddiweddarau cyn ei gymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor Llawn ar 5 Mawrth 2026.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, yr adroddiad gan nodi bod cynigion y gyllideb wedi'u trafod yn helaeth a'u herio, a bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu arno mewn dau gyfarfod ar wahân ym mis Ionawr a Chwefror 2026. Mae'r cynigion yn cynnwys cyllideb referniw net o £207.029 miliwn, cynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor gan olygu fod y tâl ar gyfer eiddo Band D yn codi i £1,792.98, defnyddio £1.685 miliwn o gronfeydd wrth gefn i helpu i gydbwyso'r gyllideb a pharhau i godi premiwm y Dreth Gyngor o 100% ar ail gartrefi a chartrefi gwag. Mae'r cynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor yn debyg i gynnydd cenedlaethol ac yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf, Ynys Môn fydd â'r cyfraddau Treth Gyngor isaf yng Ngogledd Cymru o hyd a bydd ei gynnydd ymhlith yr isaf yn rhanbarthol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod cynigion y gyllideb derfynol yn aros yr un fath â'r rhai a gyflwynwyd yn wreiddiol. Mae'r risgiau i'r gyllideb wedi'u hamlinellu yn adran 5 o'r adroddiad. Y prif risg yw ansicrwydd ynghylch dyfarniadau cyflog yn y dyfodol. Fel Swyddog Adran 151 cadarnhaodd, ar ôl ystyried yr holl risgiau a nodwyd a'r camau lliniaru, ei fod yn credu bod y gyllideb yn gadarn a bod modd ei chyflawni. Nododd hefyd fod lefel iach balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd gan y Cyngor yn ddigonol i liniaru'r risgiau a nodwyd.

Mae'r adroddiad hefyd yn diweddarau'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau yn y CATC a allai newid wrth i 2027/28 agosáu, bydd angen arbedion pellach yn 2027/28 ac yn 2028/29. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn eto i gydbwyso'r gyllideb ar gyfer 2026/27 yn creu bwlch cyllido uniongyrchol yn 2027/28. Efallai y bydd / na fydd y Cyngor yn gallu mynd i'r afael â'r bwlch hwn trwy gronfeydd wrth gefn unwaith eto; fel arall bydd angen gostyngiadau yn y gyllideb a/neu gynnydd yn y Dreth Gyngor oni bai bod cyllid yn gwella. Ar hyn o bryd mae'r CATC yn tybio cynnydd yn y Dreth Gyngor o 5% yn 2027/28 a 3% yn 2028/29. Bydd CATC wedi'i ddiweddarau yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi, 2026. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod y rhagolygon ariannol tymor canolig yn parhau i fod yn heriol ac efallai y bydd y Cyngor yn wynebu'r angen i leihau costau, gan gynnwys trwy ostyngiad posibl mewn gwasanaethau.

Rhoddodd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, adroddiad ar gyfarfod y pwyllgor ar 18 Chwefror 2026 lle ystyriodd aelodau'r adroddiad a'r cynigion terfynol ar y gyllideb referniw ddrafft. Trafododd yr Aelodau y dyraniadau ychwanegol o fewn y gyllideb a nododd y risgiau ariannol a nodir yn y ddogfen. Fe wnaethant hefyd ystyried sylwadau Cadeirydd y Panel Sgriwtini Adnoddau. Nododd yr Aelodau fod y cynigion cyllideb cyffredinol yn dal yr un fath â'r rhai a gyflwynwyd ym mis

Ionawr 2026. Ar ôl ceisio sicrwydd ynghylch nifer o gwestiynau, penderfynodd y pwyllgor gefnogi'r cynigion ar gyfer y gyllideb refeniw drafft derfynol a'u hargymell i'r Pwyllgor Gwaith.

Diolchodd y Cyngorydd Gary Pritchard i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol am ei fewnbwn dros y ddau gyfarfod a diolchodd hefyd i'r Gwasanaeth Cyllid am ei waith drwy gydol y broses o osod y gyllideb.

Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn cydnabod nad oes unrhyw un eisiau codi'r Dreth Gyngor yn uwch nag sydd ei angen. Er bod setliad Llywodraeth Cymru wedi cynyddu mwy na'r disgwyl, nid yw'n ddigon o hyd o'i gymharu â chwyddiant, pwysau cyflog a'r galw cynyddol am wasanaethau – yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol plant ac oedolion, digartrefedd ac anghenion dysgu ychwanegol. Wrth osod y gyllideb arfaethedig, pwysleisiwyd bod y Pwyllgor Gwaith wedi ceisio diogelu gwasanaethau rheng flaen y mae'r rhai mwyaf agored i niwed yn dibynnu arnynt, ac i gynyddu cyllidebau i fynd i'r afael â'r galw cynyddol ym maes gwasanaethau Oedolion a Phlant tra eu bod yn ariannu pwysau chwyddiant mewn ysgolion yn llawn. Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys buddsoddiad mewn gwasanaethau llai sy'n cael trafferth bodloni dyletswyddau statudol.

Tynnodd yr Aelodau sylw at yr ystod eang o wasanaethau y mae'r Cyngor yn gyfrifol amdanynt a'r heriau sy'n gysylltiedig â chydbwyso costau cynyddol gyda chyllid cyfyngedig. Mae'r gyllideb arfaethedig yn ceisio cydbwyso pwysau gwasanaeth gyda chyfuniad o gynilion, cronfeydd wrth gefn a chynnydd yn y dreth gyngor mewn ffordd y gellir ei chyflawni ac sydd mor deg â phosibl. Mae dull darbodus o gyllidebu a gwariant yn y blynyddoedd blaenorol yn golygu bod y Cyngor yn gallu defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb, er nad oes sicrwydd y gellir dibynnu ar gronfeydd wrth gefn yn y dyfodol. Serch hynny, mae'r Pwyllgor Gwaith yn derbyn y bydd rhai pobl yn cael eu heffeithio ac i'r rhai sy'n cael trafferth ariannol, mae cymorth ar gael drwy'r Cyngor neu Gyngor ar Bopeth.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 152 hefyd sut mae ardoll y Gwasanaeth Tân yn cael ei chyfrifo a sut mae ei effaith ar gyllideb y Cyngor yn wahanol i effaith praecept yr heddlu a phraeseptau cyngor tref a chymuned.

Penderfynwyd -

- **Argymhell bod y Cyngor Llawn yn derbyn y gyllideb refeniw ddrafft arfaethedig, a chynnydd o 5.1% yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D, gan olygu fod y gost yn 2026/27 yn £1,792.98, gan nodi y cyflwynir cynnig ffurfiol, fydd yn cynnwys praeseptau Heddlu Gogledd Cymru a Chynghorau Tref / Cymuned, i'r Cyngor ar 5 Mawrth 2026.**
- **Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 y dylai'r Cyngor gadw o leiaf £10.4m o falansau cyffredinol.**
- **Nodi sylwadau'r Swyddog Adran 151 ynglŷn â chadernid yr amcangyfrifon, fel y nodir yn Adran 5 o Atodiad 1 yr adroddiad.**
- **Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor.**
- **Cytuno y gellir defnyddio cyllid o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol i gwrdd ag unrhyw bwysau annisgwyl ar gyllidebau seiliedig ar alw yn ystod y flwyddyn ariannol.**
- **Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb wrth gefn gyffredinol yn cael ei hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn.**

- Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 yr hawl i ryddhau cyllid o hyd at £50k o'r gyllideb wrth gefn gyffredinol ar gyfer unrhyw eitem unigol. Ni ddylid caniatáu unrhyw eitem gwerth dros £50k oni bai bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ei ganiatâd ymlaen llaw.
- Cadarnhau bod lefel Premiwm y Dreth Gyngor ar gyfer ail gartrefi a thai gwag yn aros ar 100%.

13. CYLLIDEB GYFALAF 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnwys y gyllideb gyfalaf a'r rhaglen arfaethedig ar gyfer 2026/27 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, yr adroddiad gan nodi bod y sgôp ar gyfer gwariant o fewn y gyllideb gyfalaf yn gyfyngedig ac er bod benthycia yn bosibl, mae ganddo oblygiadau o ran cost i'r gyllideb refeniw.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y gyllideb gyfalaf yn amlinellu strategaeth y Cyngor ar gyfer gwariant cyfalaf, gyda blaenoriaeth yn cael ei roi i adnewyddu asedau presennol a phrynu asedau newydd y Cyngor (£6.937 miliwn). Mae prif ffynonellau cyllido'r Cyngor ar gyfer gwariant cyfalaf yn cynnwys grant cyfalaf cyffredinol Llywodraeth Cymru, benthycia â chymorth, derbyniadau cyfalaf, a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd. Mae benthycia heb gymorth yn parhau i fod yn opsiwn, fodd bynnag, mewn achosion o'r fath byddai'r holl ad-daliadau am fenthyciadau a chostau llog yn dod yn gyfan gwbl o gyllideb refeniw y Cyngor ac mae cyfyngiadau ar fenthycia yn berthnasol i sicrhau nad yw'r Cyngor yn gorymestyn ei hun. Disgwylir y bydd y Cyngor yn derbyn grantiau ychwanegol yn ystod y flwyddyn fel yn y blynyddoedd blaenorol, a bydd y rhain yn cael eu hychwanegu at y gyllideb. Mae Atodiad 2 i'r adroddiad yn rhoi dadansoddiad manwl o'r gyllideb gyfalaf arfaethedig derfynol ar gyfer 2026/27, gan ddangos pob cynllun, ei gostau a sut y bydd yn cael ei ariannu. Mae rhai cynlluniau gwerth cyfanswm o £8.934m hefyd yn cael eu dwyn ymlaen o 2025/26 ond gall y ffigur hwn gynyddu wrth i gyfrifon y Cyngor gael eu cwblhau ym mis Mehefin a Gorffennaf 2026.

Cyfeiriodd y Swyddog Adran 151 hefyd at feysydd buddsoddi eraill o fewn y gyllideb gyfalaf gan gynnwys gwelliannau i isadeiledd gwastraff y Cyngor (£3.806m), a ariennir yn bennaf drwy incwm eEPR. Mae prosiectau mawr eraill yn cynnwys gwelliannau i Bier a Phontynau Porthaethwy (£225k), gwaith adnewyddu Canolfan Hamdden Plas Arthur – cam 2 (£1.65m) a Phrosiectau Cronfa Balchder Bro (£1.5m) sy'n anelu at sicrhau gwelliannau gweladwy tymor byr i lefydd a mannau gwerthfawr cymunedol erbyn mis Mawrth 2027 ac sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Mae cyllideb gyfalaf y CRT wedi'i neilltuo ar gyfer tai ac mae'n canolbwyntio ar fuddsoddiad parhaus yn y stoc bresennol i sicrhau y cydymffurfir â SATC (£15.71m), cyfleuster gofal a phreswyl ychwanegol newydd ym Mhorthaethwy (£14.001m) a datblygiad tai newydd (£1.498m).

Rhoddodd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, adroddiad ar gyfarfod y pwyllgor ar 18 Chwefror 2026, lle ystyriodd aelodau'r adroddiad a'r cynigion derfynol ar y gyllideb gyfalaf ddrafft. Adolygodd y pwyllgor y ddogfen a gyflwynwyd ac ymatebion Aelodau a Swyddogion Portffolio i'r materion a godwyd. Fe wnaethant hefyd ystyried sylwadau Cadeirydd y Panel Sgriwtini Adnoddau. Trafododd yr aelodau raglen gyfalaf y CRT a'i chyllid, gan nodi'r pwysau ar y CRT a'r angen i sicrhau bod cydbwysedd rhwng gwneud y mwyaf o incwm rhent a chadw rhenti'n fforddiadwy. Ar ôl craffu ar y cynigion ar gyfer cyllideb gyfalaf ddrafft derfynol 2026/27, penderfynodd y pwyllgor gefnogi'r cynigion a'u hargymell i'r Pwyllgor Gwaith.

Nododd aelodau Pwyllgor Gwaith fod y rhaglen gyfalaf a'r gyllideb yn gyfyngedig a bod y cyfyngiadau hyn yn dylanwadu ar yr hyn y mae'r Cyngor yn gallu ei gyflawni o ran buddsoddiad cyfalaf. Oherwydd bod cyllid wedi'i gyfyngu, mae'r Cyngor yn parhau i flaenoriaethu gwaith hanfodol fel cynnal asedau presennol sy'n golygu bod y sgôp ar gyfer mentrau newydd yn gyfyngedig.

Pwysleisiodd yr aelodau, fodd bynnag, fod y Cyngor yn ceisio buddsoddi mewn prosiectau newydd lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys gwella amgylchedd gweledol yr ynys. Cyflawnir hyn i raddau helaeth trwy sicrhau cyllid grant a gweithio mewn partneriaeth ag eraill. Mae'r rhestr o gynlluniau yn atodiad 2 yn adlewyrchu'r dull hwn ac yn cynnwys prosiectau ailddatblygu a thrawsnewid yng Nghaergybi.

Croesawodd yr Aelodau hefyd y cyllid Balchder Bro y bydd y Cyngor yn ei ddyrannu i'r cynghorau tref a chymuned fel y gall cymunedau a chymdogaethau unigol elwa o fuddsoddiad cyfalaf sy'n cael ei arwain yn lleol ac a ddewisir yn lleol.

Penderfynwyd argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol ar gyfer 2026/27 i'r Cyngor Llawn – £'000

Cynlluniau 2025/26 a Ddygwyd Ymlaen (Y Gronfa Gyffredinol)	8,394
Adnewyddu Asedau /Prynu Asedau Newydd	6,937
Isadeiledd Gwastraff	3,806
Pier a Phontynau Porthaethwy	225
Gwaith Adnewyddu Plas Arthur Cam 2	1,650
Balchder Bro	1,500
Cyfrif Refeniw Tai	31,572

Cyfanswm y Rhaglen Gyfalaf a Argymhellir 2026/27	54,084
---	---------------

Cyllidir gan:

Grant Cyfalaf Cyffredinol	2,761
Benthyca â Chymorth Cyffredinol	5,047
Cymunedau Dysgu	
Benthyca heb gymorth	0,000
Cronfa wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	271
Cronfeydd wrth Gefn Clustnodedig	452
Grantiau Llywodraeth Cymru a'r DU	10,044
Benthyca Digymorth (Cronfa Gyffredinol)	937
Gwarged Cyfrif Refeniw'r CRT	5,418
Grantiau Allanol y CRT	17,291
Benthyca heb gymorth y CRT	8,863

Cyfanswm Cyllid Cyfalaf 2026	54,084
-------------------------------------	---------------

14. POLISI GOSTYNGIADAU DEWISOL Y DRETH GYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaethau (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a oedd yn cynnig newid i Bolisi Gostyngiadau Dewisol y Dreth Gyngor Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Byddai'r gwelliant arfaethedig yn cyflwyno gostyngiad o 100% yn y Dreth Gyngor ar gyfer aelwydydd lle mae rhywun sydd â salwch terfynol.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cyngorydd Gary Pritchard, yr adroddiad gan ddiolch i'r Cyngorydd Jeff Evans am ddod â'r mater i'w sylw ar ôl gweld adroddiadau yn y wasg am Gyngor Dinas Manceinion yn cyflwyno cynllun tebyg yn unol â'r dull a argymhellir gan elusen Marie Curie. Roedd yn falch bod y Pwyllgor Gwaith wedi gallu cynnig y newid hwn a diolchodd i'r Gwasanaeth Cyllid am gynnal yr ymchwil angenrheidiol. Y cynnig yw diwygio polisi gostyngiadau dewisol presennol y Dreth Gyngor fel bod aelwydydd lle mae rhywun sydd â salwch terfynol yn derbyn gostyngiad o 100% o'r Dreth Gyngor. Byddai'r polisi, os caiff ei gymeradwyo gan y Cyngor Llawn, yn dod i rym o 1 Ebrill 2026 ac yn cael ei adolygu ar ôl deuddeg mis.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod staff wedi archwilio sut roedd cynghorau eraill wedi gweithredu cynlluniau tebyg, gan gynnwys y rhai sy'n seiliedig ar dystysgrif SR1 sy'n hwyluso mynediad at fudd-daliadau a chymorth i bobl sydd â salwch terfynol. Fodd bynnag, teimlwyd y gallai dibynnu ar y dystysgrif SR1 yn unig gyfyngu ar gymhwysedd i unigolion a allai fod eisoes yn derbyn cymorth drwy'r cynllun Gostyngiad yn y Dreth Gyngor. Felly, cynigir ymestyn cymhwysedd i unigolion nad oes ganddynt dystysgrif SR1 ond sy'n gallu darparu llythyr gan eu meddyg teulu yn cadarnhau bod ganddynt salwch terfynol ac efallai bod ganddynt lai na deuddeg mis i fyw.

Bydd y gostyngiad yn berthnasol am hyd at ddeuddeg mis neu ddau fis ar ôl y farwolaeth, pa un bynnag sy'n dod gyntaf. Mae'r effaith ariannol yn anodd ei mesur gan ei fod yn dibynnu ar nifer yr ymgeiswyr, y band eiddo, a yw'r ymgeisydd eisoes yn derbyn gostyngiadau eraill neu ostyngiad yn y Dreth Gyngor ac a yw'r eithriad yn para am y deuddeg mis llawn. Er mwyn rheoli'r risg hon, bydd y polisi yn cael ei adolygu ar ôl deuddeg mis a chyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

Roedd aelodau'r Pwyllgor Gwaith yn gwbl gefnogol i'r gwelliant arfaethedig, gan gydnabod bod salwch terfynol yn rhoi pwysau sylweddol ar unigolion a'u teuluoedd, ac y gall straen ariannol waethygu caledi ar ddiwedd oes. Byddai'r gostyngiad yn helpu i leihau'r baich hwnnw.

Penderfynwyd gwneud yr argymhellion canlynol i'r Cyngor Llawn -

- **Cymeradwyo'r newid i Bolisi Gostyngiadau Dewisol at y Dreth Gyngor, er mwyn cyflwyno gostyngiad o 100% ar gyfer aelwydydd lle mae unigolyn sydd â salwch terfynol yn byw, yn unol ag Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.**
- **Gweithredu'r polisi o 1 Ebrill 2026, gan sicrhau bod proses ymgeisio a dogfennau ategol (gan gynnwys ardystiad SR1) ar waith.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau weinyddu'r cynllun a gwneud unrhyw fân addasiadau gweithredol fydd angen eu gwneud.**
- **Monitro ac adolygu effaith y polisi ar ôl 12 mis a chyflwyno'r canfyddiadau i'r Pwyllgor Gwaith.**

Gohiriwyd y cyfarfod a chafwyd egwyl fer ar y pwynt hwn ac aildddechreuodd am 11:40 a.m.

15. NEWID I'R CYFANSODDIAD – CYMERADWYAETH DERFYNOL I DDATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL Y CYNGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn gofyn am farn y Pwyllgor Gwaith ar y newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl terfynol i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynnyddol y Cyngor, i'w ystyried.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, yr adroddiad gan nodi ei fod yn cynnig newid ymarferol i'r Cyfansoddiad fel bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn hytrach na'r Cyngor Llawn, yn rhoi cymeradwyaeth derfynol i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y rhesymau dros y newid arfaethedig, sy'n cynnwys amserlen archwilio fyrrach a osodwyd gan Archwilio Cymru ar gyfer 2025/26. O dan yr amserlen ddiwygiedig, rhaid i'r cyfrifon gael eu hawdurdodi erbyn 30 Medi 2026, mis yn gynharach na'r flwyddyn flaenorol. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi y dylai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol gael ei gyhoeddi ar yr un pryd ag y llofnodir y cyfrifon heb eu harchwilio, sy'n golygu bod yr amser yn gyfyngedig i adolygu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar ôl iddo gael ei adolygu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Os bydd yn dal i gael cymeradwyaeth gan y Cyngor, byddai angen aildrefnu cyfarfod y Cyngor ym mis Medi 2026 a chynnal cyfarfod arbennig.

Felly, ystyrir bod dirprwyo cymeradwyaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn broses fwy effeithlon ac mae'n sicrhau bod y broses o gymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cyd-fynd â'r broses gymeradwyo ar gyfer cyfrifon blynyddol y Cyngor sydd eisoes wedi'i ddirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Ni fyddai'r newid arfaethedig yn anfantais i gynghorwyr na'r cyhoedd gan y byddai adroddiadau yn parhau i fod ar gael yn y ffordd arferol, a byddai'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yn cael ei ddosbarthu i'r holl aelodau ym mis Mehefin i gael sylwadau arno.

Penderfynwyd argymhell i'r Cyngor Llawn ei fod yn cymeradwyo'r newid arfaethedig i'r Cyfansoddiad er mwyn rhoi'r hawl i Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'r Cyngor, yn hytrach na'r Cyngor, gymeradwyo Datganiad Llywodraethu Blynyddol y Cyngor yn derfynol.

16. DYRANNU HYD AT £100K O GYLLID O'R BALANSAU CYFFREDINOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £100k o falansau cyffredinol y Cyngor i fynd i'r afael â materion staffio a chapasiti yng ngwasanaeth cyfreithiol y Cyngor.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, yr adroddiad gan nodi bod y cais am gyllid yn cael ei wneud i sicrhau parhad gwasanaethau llywodraethu cyfreithiol a gwybodaeth.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro at yr anawsterau recriwtio parhaus o fewn gwasanaethau cyfreithiol y Cyngor. Mae dibyniaeth barhaus ar staff asiantaeth wedi arwain at orwariant blynyddol o £250k ar gyllideb Busnes y Cyngor, a ragwelir yr un sefyllfa eto ar gyfer 2025/26. Gyda'i gilydd, mae 41 ymgais recriwtio dros 20 mis gan gynnwys disgrifiadau swyddi a gwerthusiadau diwygiedig, hysbysebu cenedlaethol, gweithio hyblyg a dileu gofynion Cymraeg, wedi bod yn aflwyddiannus i raddau helaeth.

Mae dwy swydd wag bellach wedi'u llenwi gan gyfreithwyr sydd newydd gymhwyso sydd heb brofiad yn y meysydd arbenigol sydd eu hangen. Er mwyn rheoli'r sefyllfa yn gyfrifol, rhaid i'r gwasanaeth ddatblygu a mentora'r ddau aelod newydd o staff gan sicrhau cefnogaeth ddiogel a chyfreithlon i gleientiaid yn y cyfamser. Cais yw hwn am gyllid ar gyfer cadw staff cyfreithiol asiantaeth am chwe mis mewn un achos ac am dri mis yn y llall i ddarparu'r gefnogaeth a'r datblygiad hwn. Mae hefyd yn cynnwys cyllid parhaus i'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro i weithredu'r Rhaglen Adfer a Gwella Llywodraethu Gwybodaeth, cefnogi'r prosiect datblygu CRM a mentora paragyfreithiwr newydd posibl.

Nododd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro y gallai ceisiadau pellach ddilyn os penodir cyfreithwyr dibrofiad ychwanegol i swyddi gwag eraill, a gofynnir am awdurdod dirprwyedig i'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid gymeradwyo ceisiadau o'r fath. Fodd bynnag, ni ragwelir cais pellach ar unwaith, gan fod y gwasanaeth yn bwriadu dilyn y broses a nodwyd ac ymhen amser, ailadrodd y broses os oes angen. Bydd y gwasanaeth hefyd yn parhau i geisio llenwi swyddi gwag trwy'r broses recriwtio arferol.

Roedd aelodau Pwyllgor Gwaith yn cydnabod yr heriau wrth recriwtio cyfreithwyr cymwys gyda'r cymwyseddau arbenigol angenrheidiol a'r ymdrechion helaeth a wnaed i lenwi'r swyddi gwag yn y gwasanaeth cyfreithiol. Roeddent hefyd yn cydnabod y byddai'r cyllid arfaethedig yn helpu i leihau'r ddibyniaeth ar staff asiantaeth yn y tymor hir trwy allu datblygu staff mewnol parhaol. Nododd yr Aelodau fod gwasanaeth cyfreithiol mewnol yn cefnogi gwasanaethau, yn lleihau costau, yn darparu gwybodaeth gyd-destunol a sefydliadol nad yw'n bosibl trwy gymorth allanol a hefyd yn cynnig gwell cyfleoedd i ddatblygu sgiliau Cymraeg. Cyfeiriwyd hefyd at Ysgol y Gyfraith Prifysgol Bangor a'r manteision recriwtio posibl drwy gryfhau cysylltiadau â'r ysgol.

Nododd y Prif Weithredwr fod y sefyllfa wedi bod yn anodd ers peth amser a phwysleisiodd fod y Cyngor fel cyflogwr wedi ystyried pob ffordd i lenwi'r swyddi gwag. Mae heriau tebyg yn wynebu cynghorau eraill ac nid ydynt yn unigryw i'r awdurdod hwn. Pwysleisiodd rôl hanfodol y gwasanaeth cyfreithiol wrth reoli risg sefydliadol, sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a rhoi cefnogaeth i wneud penderfyniadau cadarn. Felly, mae adnodd cyfreithiol ac arbenigedd arbenigol yn hanfodol i waith bob dydd y Cyngor. Gorffennodd trwy ddiolch i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro am ei gwaith a'i hymrwymiad yn ystod y cyfnod hwn.

Penderfynwyd -

- **Caniatáu i ryddhau hyd at £100k o falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn -**
 - **Cadw'r gefnogaeth a ddarperir gan staff asiantaeth er mwyn datblygu arbenigedd dau gyfreithiwr sydd bellach wedi'u penodi.**
 - **Ariannu costau parhaus, ond dros dro, cefnogaeth gan staff asiantaeth ar gyfer cleientiaid, er mwyn sicrhau trosglwyddiad esmwyth a diogel yn ôl i ddarpariaeth gyfreithiol fewnol yn y meysydd gwaith arferol hynny**
 - **Cadw'r Swyddog Diogelu Data Dros Dro presennol i sicrhau bod y Rhaglen Adfer a Gwella Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei chyflawni, yn ogystal ag adolygu a diweddarau'r system CRM, a datblygu paragyfreithiwr newydd.**
- **Dirprwyo unrhyw geisiadau pellach o'r fath i'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, mewn trafodaeth â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.**

17. ARDOLL YMWELWYR

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch a ddylai Ynys Môn gyflwyno Ardoll Ymwelwyr, i'w ystyried. Darparwyd manylion y gofynion ar gyfer cynnal yr ymgynghoriad yn Atodiad A yr adroddiad.

Cyflwynodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard, yr adroddiad, gan nodi bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ymgynghori â thrigolion, busnesau a sefydliadau lleol eraill cyn penderfynu a ddylid cyflwyno ardoll ymwelwyr. Mae Cynghorau cyfagos Gwynedd a Chonwy yn bwriadu cynnal proses ymgynghori ym mis

Mehefin/Gorffennaf 2026 ac mae Ynys Môn o'r farn ei bod yn synhwyrol cydweithio â Gwynedd a Chonwy ar y dull a'r amserlen, er y byddai pob cyngor yn cynnal ei ymgynghoriad ei hun yn annibynnol.

Nododd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo fod yn rhaid i'r ymgynghoriad arfaethedig ddilyn Egwyddorion Gunning a argymhellir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal ymgynghoriad yn gynnar, darparu digon o wybodaeth ar gyfer ymatebion sy'n seiliedig ar wybodaeth, caniatáu digon o amser – argymhellir 12 wythnos, a sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ystyried yr ymatebion yn iawn. Rhaid i'r penderfyniad terfynol gael ei wneud gan y Cyngor Llawn.

Pwysleisiodd y Pwyllgor Gwaith ei fod yn bwriadu gofyn am farn yr holl bartïon a rhanddeiliaid â diddordeb ac anogodd bawb i gyfrannu. Nodwyd hefyd y bydd yn ofynnol i bob darparwr llety ymwelwyr yng Nghymru gofrestru ar y gofrestr genedlaethol p'un ai a yw'r Cyngor yn mabwysiadu'r ardoll ai peidio yn y pen draw.

Eglurodd y Prif Weithredwr fod y gofrestr genedlaethol yn dal i gael ei datblygu gan Lywodraeth Cymru. Unwaith y bydd rhagor o fanylion ar gael, trefnir sesiwn briffio aelodau i amlinellu sut y bydd y gofrestr yn gweithio ac a fydd gan y Cyngor unrhyw gyfrifoldebau o ran gweithredu neu orfodi.

Penderfynwyd cefnogi'r canlynol –

- **Ymgymryd â phroses ymgynghori gyhoeddus mewn perthynas â'r posibilrwydd o gyflwyno ardoll ymwelwyr ar Ynys Môn (yn unol â chanllawiau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru).**
- **Bod y broses ymgynghori yn cael ei chynllunio ar y cyd â Chynghorau Gwynedd a Chonwy, ond yn cael ei gweithredu'n annibynnol.**

18. DATGANIAD POLISI TRWYDDEDU 2026-2031

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a oedd yn cynnwys Datganiad Polisi Trwyddedu 2026-2031, i'w ystyried. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith i'r polisi i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn.

Cyflwynodd y Cynghorydd Nicola Roberts, Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yr adroddiad gan nodi ei bod yn ofynnol i Gyngor Ynys Môn, fel yr Awdurdod Trwyddedu, adolygu, ymgynghori a chyhoeddi Datganiad Polisi Trwyddedu bob pum mlynedd. Mae'r polisi yn nodi sut y bydd yr Awdurdod yn arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, gan gynnwys sut y bydd yn gwneud penderfyniadau ynghylch trwyddedau ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol, adloniant trwyddedig a lluniaeth hwyr y nos. Rhaid i'r awdurdod trwyddedu gyflawni ei swyddogaethau gyda'r bwriad o hyrwyddo'r pedwar amcan trwyddedu statudol ac mae'r polisi wedi'i seilio ar y rhain – atal troseddu ac anhrefn, sicrhau diogelwch y cyhoedd, atal niwsans cyhoeddus ac amddiffyn plant rhag niwed.

Cyhoeddwyd polisi drafft i ymgynghori arno rhwng 14 Tachwedd 2025 a 5 Ionawr 2026. Derbyniwyd ymatebion gan BIPBC, lechyd y Cyhoedd, lechyd yr Amgylchedd ac un deiliad trwydded. Mae'r adborth yn cyfrannu at gyfres o welliannau wedi'u targedu i gryfhau adrannau penodol o'r polisi.

Penderfynwyd cefnogi cyflwyno'r datganiad Polisi Trwyddedu 2026 - 2031 drafft i'r Cyngor Llawn er mwyn ei fabwysiadu.

19. MAES PARCIO BIWMARES

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo mewn ymateb i gais mewn cynllun busnes gan Gyngor Tref Biwmares (sydd wedi'i gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad) i gymryd perchnogaeth o Faes Parcio'r Castell, Biwmares, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Arweinydd, y Cynghorydd Gary Pritchard wrth y cyfarfod ei fod wedi derbyn cais gan Gyngor Tref Biwmares i ohirio'r penderfyniad heddiw. Fel Arweinydd a rhywun sy'n byw ym Miwmares, roedd o'r farn bod y Cyngor Tref eisoes wedi cael cyfle teg i gyflwyno achos busnes, gan nodi bod y brydles ar y maes parcio wedi dod i ben ym mis Gorffennaf 2025. Nid oedd yn credu bod unrhyw sail bellach dros ohirio a chadarnhaodd y byddai'r mater felly yn cael ei benderfynu yn y cyfarfod heddiw.

Cyflwynodd y Cynghorydd Ieuan Williams, Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd yr adroddiad, gan nodi bod y Cyngor wedi trosglwyddo Carchar a Llys Biwmares i'r Cyngor Tref ym mis Gorffennaf 2020, yn dilyn asesiad yn seiliedig ar farn ymgynghorydd bod angen tua £600k o fuddsoddiad ar yr adeiladau. Er mwyn cefnogi'r Cyngor Tref i dalu'r costau hyn, rhoddwyd prydles 5 mlynedd ar Faes Parcio'r Castell rhwng 15 Gorffennaf 2020 a 15 Gorffennaf 2025 gyda'r bwriad bod yr incwm (tua £100k y flwyddyn) yn cyfrannu at y costau uwchraddio. Ers hynny, cafwyd cais gan y Cyngor Tref i Faes Parcio'r Castell gael ei drosglwyddo i'w berchnogaeth am byth heb unrhyw gost. Mae'r cais wedi'i ystyried a'r argymhelliad yw ei wrthod. Yn hytrach, cynigir ymestyn y brydles tan 31 Mawrth 2026 ar yr un telerau ag o'r blaen i gydnabod yr incwm a gollwyd yn ystod pandemig Covid 19. Mae'r Pwyllgor Gwaith yn argymhell gwrthod am y rhesymau canlynol –

- Mae adran 123 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn gwahardd cynghorau rhag gwaredu eiddo (ac eithrio drwy denantiaeth fer) am lai na'r gwerth gorau y gellir ei sicrhau yn rhesymol (heb ganiatâd y Gweinidog). Mae'r maes parcio yn werth rhwng £900k a £1.2m, yn seiliedig ar yr elw gros cyfartalog a nodir yng nghynllun busnes Cyngor Tref Biwmares.
- Byddai trosglwyddo ased o'r fath i'r gymuned am ddim neu am lai na'r pris gorau sy'n bosibl yn rhesymol yn gosod cynsail newydd trwy wyro o bolisi'r Cyngor ar gyfer gwaredu eiddo. Byddai hefyd yn tanseilio polisi'r Cyngor ar waredu asedau, yn debygol o annog ceisiadau tebyg gan gymunedau eraill ar sail y cynsail newydd, a gallai o bosibl leihau derbyniadau cyfalaf yn y dyfodol o safleoedd tebyg.
- Mae cynllun busnes y Cyngor Tref yn awgrymu mai prif bwrpas y cais yw cynnal y praesept ar lefel isel. Nid yw'n nodi bod incwm o'r maes parcio yn cael ei fuddsoddi yn y Carchar a'r Llys, sef y bwriad gwreiddiol y tu ôl i roi'r brydles. Praesept presennol Cyngor Tref Biwmares yw £39k sy'n sylweddol is na phraesept pob un o'r pedwar cyngor tref arall.

Pwysleisiodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y byddai'r maes parcio yn parhau i fod ar gael i'r dref a defnyddwyr eraill at ddibenion parcio a bod y mater dan sylw yn ymwneud â dyfodol yr incwm yn unig. Yn ei farn ef, byddai dychwelyd yr ased dan reolaeth y Cyngor Sir yn cefnogi gwell trefn o orfodaeth barcio yn y dref.

Mewn ymateb i gwestiynau aelodau'r Pwyllgor Gwaith ynglŷn â sut roedd y Cyngor Tref wedi defnyddio'r incwm o'r maes parcio, p'un ai a oedd wedi ymgysylltu â'r Cyngor Sir cyn i'r brydles ddod i ben a pha drefniadau codi tâl fyddai'n berthnasol pe bai'r maes parcio yn dychwelyd i reolaeth y Cyngor, eglurodd Swyddogion –

- Yn ôl y cynllun busnes, cynhyrchodd Maes Parcio'r Castell £113k mewn refeniw yn 2024/25 gyda threuliau uniongyrchol o £48k ac elw gros o £64,572. O'r rhain, ail-fuddsoddwyd £25,670 yn y maes parcio er na ddarperir dadansoddiad, a dyrannwyd £13,181 i'r Carchar a'r Llys gan adael £25,721 i gefnogi'r praesept. Mae cyfrifon y Cyngor Tref yn dangos bod ei falansau wedi cynyddu o £419k yn 2020 i £798k yn 2025.

- Bod y Cyngor Tref wedi parhau i gasglu incwm o'r maes parcio ers i'r brydles ddod i ben ym mis Gorffennaf 2025. Argymhellir caniatáu i'r Cyngor Tref gadw'r incwm hwn fel ffordd i'w ddigolledu am y naw mis o incwm a gollwyd yn ystod Covid-19.
- Tua diwedd cyfnod y brydles, cysylltodd y Cyngor Sir â'r Cyngor Tref i'w hysbysu am y dyddiad y byddai'r les yn dod i ben a bwriad y Cyngor i gymryd rheolaeth o Faes Parcio'r Castell yn ôl. Nid oedd dyddiad dod i ben Gorffennaf 2025 yn ddelfrydol ar gyfer trosglwyddo rheolaeth a newid trefniadau casglu incwm, gan fod risg o golli incwm. Yn ystod trafodaethau ar y pryd, dywed y Cyngor Tref ei fod yn awyddus i gymryd perchnogaeth o'r maes parcio a gofynnodd y Cyngor am gais ffurfiol a chynllun busnes. Y disgwyl oedd y byddai'r cynllun yn nodi gwariant rhagamcanedig a gwirioneddol ar y Carchar a'r Llys dros y cyfnod o bum mlynedd, ochr yn ochr â'r incwm rhagamcanedig a gwirioneddol o'r maes parcio.
- Os bydd y maes parcio yn dychwelyd o dan reolaeth y Cyngor Sir, y bwriad yw cyflwyno ffioedd am arhosiad awr, dwy awr, pedair awr a thrwy gydol y dydd, gyda thariff ar wahân ar gyfer bysiau.

Roedd y Pwyllgor Gwaith o'r farn bod bylchau yn y Cynllun Busnes a gyflwynwyd gan Gyngor Tref Biwmares, yn fwyaf arbennig y diffyg tystiolaeth i ddangos sut roedd incwm o'r maes parcio wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y Carchar a'r Llys dros gyfnod pum mlynedd y brydles. Nododd yr aelodau fod y cynllun yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnal praesept isel gyda rheolaeth barhaus o'r maes parcio yn cyfrannu at y nod hwnnw. Nid yw'r cynllun ychwaith yn nodi strategaeth ail-fuddsoddi glir yn y dyfodol ar gyfer y Carchar a'r Llys. Am y rhesymau a nodwyd, daeth aelodau i'r casgliad nad oeddent yn gallu cymeradwyo'r cais.

Penderfynwyd gwrthod y cais a gyflwynwyd mewn cynllun busnes gan Gyngor Tref Biwmares i drosglwyddo Maes Parcio'r Castell, Biwmares i'r Cyngor Tref, a chynnig prydles newydd iddynt hyd at 31 Mawrth 2026 yn seiliedig ar yr un amodau â'r brydles wreiddiol.

20. CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI MÂN-DDALIADAU 2026-2031

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a oedd yn cynnwys Cynllun Strategol Rheoli Mân-ddaliadau 2026-2032, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Cyflwynodd y Cynghorydd Alun Roberts, Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo, y Cynllun Strategol yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn rheoli ei ystâd Mân-ddaliadau amaethyddol dros y pum mlynedd nesaf. Nod y cynllun yw sicrhau hyfywedd hirdymor yr ystâd trwy sicrhau ei bod yn darparu enillion ariannol, amgylcheddol a chymdeithasol priodol sy'n adlewyrchu ei gwerth cyfalaf. Mae'n nodi pedwar maes blaenoriaeth – ystâd gynaliadwy yn ariannol, ystâd a reolir yn dda, ystâd lle mae risg yn cael ei lleihau a'i rheoli, ac ystâd sy'n cefnogi amcanion Cynllun y Cyngor. Pwysleisiodd y Cynghorydd Alun Roberts fod yr ystâd yn destun balchder a bod y cynllun yn ceisio ei gosod ar sail ddiogel ar gyfer y dyfodol.

Adroddodd y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ar waith y Grŵp Llywio Mân-ddaliadau amlbleidiol a sefydlwyd i adolygu'r polisi blaenorol a fabwysiadwyd dros 15 mlynedd yn ôl. Cyfarfu'r grŵp bedair gwaith ac mae'n argymhell y cynllun diwygiedig fel y'i cyflwynir. Ailadroddodd y balchder yn yr ystâd a'i chyfraniad i'r sector ffermio, cymunedau gwledig a'r Gymraeg. Mae barn bendant y dylid cadw'r ystâd, ac nid oes unrhyw ddymuniad i'w gwaredu ar raddfa fawr.

Ar hyn o bryd mae'r ystâd yn cynhyrchu elw o tua £200k i'r Cyngor ac mae ei gwerth a'i rheolaeth yn cyfiawnhau buddsoddiad parhaus. Fodd bynnag, mae costau cynnal a chadw yn codi'n gyflymach na'r gyllideb ac mae'r cynllun yn argymhell cynyddu'r gyllideb atgyweirio a chynnal a chadw flynyddol o £102k yn 2026/27 i fynd i'r afael â'r gwaith sy'n cronni. Er nad

oes unrhyw fwriad i werthu unedau, mae'r grŵp o'r farn ei bod yn rhesymol asesu'r achos busnes ar gyfer cadw neu waredu pan fydd daliadau'n dod yn wag, cadw tir lle bo'n bosibl ac ail-fuddsoddi unrhyw dderbyniadau cyfalaf yn ôl i'r ystâd. Dylid diogelu tenantiaid, ond mae angen adolygu rhenti yn unol â'r darpariaethau a'r cytundebau teg a sefydlwyd. Ystâd Môn-ddaliadau Ynys Môn yw'r ail fwyaf yng Nghymru ac mae'n amrywio o ran maint, defnydd a lleoliad. Y nod yw ei rheoli mor effeithiol â phosibl.

Rhoddodd y Cynghorydd Jeff Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, adroddiad ar gyfarfod y pwyllgor ar 18 Chwefror 2026, lle ystyriodd yr aelodau Gynllun Strategol Rheoli Môn-ddaliadau. Adolygodd yr Aelodau y ddogfen a rhoddwyd sicrwydd y bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i sut y bydd cynnydd yn cael ei adrodd. Trafodwyd gwerth am arian ac ymgysylltu â thenantiaid. Ar ôl trafod ac ystyried y materion a godwyd a'r ymatebion a ddarparwyd, penderfynodd y pwyllgor argymhell Cynllun Strategol Rheoli Môn-ddaliadau 2026-2031 i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo.

Diolchodd y Cynghorydd Gary Pritchard i'r Grŵp Llywio Môn-ddaliadau a'u gwaith sy'n sylfaen i'r cynllun strategol.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Cynllun Strategol Rheoli Môn-ddaliadau 2026-2031.

**Y Cynghorydd Gary Pritchard
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	24 Mawrth 2026
Pwnc:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Aelod(au) portffolio:	Y Cyngorydd Gary Pritchard
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr adroddiad:	Dyfan Sion, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
Aelodau lleol:	Amherthnasol

A – Argymhellion a rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

- gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ebrill – Tachwedd 2026**
- adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda phwyllgorau sgrwtini'r Cyngor
- nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Amherthnasol

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

Amherthnasol

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

Amherthnasol

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Amherthnasol

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Amherthnasol

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol.

Amherthnasol

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amherthnasol

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Tîm Arweinyddiaeth
2. Cyllid / Swyddog 151	Gweler uchod
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Gweler uchod
4. Adnoddau Dynol	Amherthnasol
5. Eiddo	Amherthnasol
6. Technoleg Gwybodaeth	Amherthnasol

7. Caffael	Amherthnasol
8. Sgriwtini	Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau bwyllgor sgriwtini, er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt.
9. Aelodau lleol	Amherthnasol

F – Atodiadau

Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ebrill – Tachwedd 2026
--

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

--

Cyngor Sir Ynys Môn

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

Cyfnod: Ebrill - Tachwedd 2026

Tudalen 22

Mae'r flaen raglen waith hon yn rhestru'r holl benderfyniadau y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud a pha fusnes y bydd y pwyllgorau sgrwtini yn ei ystyried ynghyd â phryd y bydd y materion hynny'n cael eu trafod. Mae hefyd yn rhestru unrhyw argymhellion y mae'r Pwyllgor Gwaith yn bwriadu eu gwneud mewn perthynas â phenderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud gan y Cyngor llawn.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig.

Mae'r flaen raglen waith yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol. Nid yw'r ffaith nad yw penderfyniad wedi'i gynnwys yn y flaen raglen waith yn atal materion brys neu rai na ragwelwyd rhag cael eu hystyried.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

Diweddarwyd ddiwethaf ar 13 Mawrth 2026

Ebrill 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwrtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod 28.04.26	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Mai 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwrtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Mai 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Datblygiad gogledd yr ynys – cytuno menter ar y cyd efo Llywodraeth Cymru	Cyng Gary Pritchard	
	Dogfen Gyflawni Blynnyddol 2026/27	Cyng Robin Williams	

Mehefin 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwrtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Penderfyniad dirprwyiedig	Adroddiad Blynnyddol Safonau'r Gymraeg 2025/26	Cyng Dafydd Roberts	
Cyfarfod Mehefin 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 4, 2025/26	Cyng Robin Williams Cyng Carwyn Jones	Panel Sgrwtini Adnoddau

Gorffennaf 2026

Tudalen 24

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Gorffennaf 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cyfrifon terfynol drafft 2025/26 a defnydd o arian wrth gefn a balansau	Cyng Robin Williams	
	Cynllun Datblygu Lleol – Ymgynghoriad ar y strategaeth a ffefrir	Cyng Nicola Roberts	

Medi 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Medi 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Chwarter 1, 2026/27	Cyng Robin Williams	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol
	Monitro Cyllideb Refeniw – Chwarter 1, 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb Gyfalaf – Chwarter 1, 2026/27	Cyng Robin Williams	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai – Chwarter 1, 2026/27	Cyng Robin Williams Cyng Carwyn Jones	Panel Sgrwtini Adnoddau
	Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) Blynnyddol drafft 2025/26	Cyng Robin Williams	

Tudalen 25

Hydref 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Hydref 2026	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	

Tachwedd 2026

Dyddiad y cyfarfod neu ddyddiad cyhoeddi penderfyniad dirprwyiedig	Y mater i'w ystyried	Aelod Portffolio	Dyddiad i sgrwrtini a / neu'r Cyngor llawn (os yn berthnasol)
Cyfarfod Tachwedd	Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith	Cyng Gary Pritchard	
	Adroddiad Hunanasesiad a Pherfformiad (Llesiant) Blynnyddol 2025/26	Cyng Robin Williams	

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	24 Mawrth 2026
Pwnc:	Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 3 (2025/26)
Aelod(au) portffolio:	Y Cynghorydd Robin W Williams, Dirprwy Arweinydd, Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer
Pennaeth gwasanaeth / cyfarwyddwr:	Huw Ynyr
Awdur yr adroddiad:	Gwyndaf Parry GwyndafParry@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau lleol:	Amherthnasol

A – Argymhellion a rhesymau

1.1 Hwn yw'r trydydd cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2025/26. Mae'n dangos perfformiad y Cyngor yn erbyn ei amcanion strategol fel yr amlinellwyd yn Cynllun y Cyngor.. 1.2 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 3. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys: - Mae 262 o oedolion bellach yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, sy'n rhagori ar y targed o 224 ac yn dangos cynnydd cyson ers Ch1. - Mae cyfranogiad yn parhau'n uchel, gyda 445,982 o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan ragori ar y targed o 437,943. - Penderfynwyd ar 96% o geisiadau cynllunio o fewn yr amserlen, gan barhau â'r duedd gadarnhaol a welwyd drwy gydol y flwyddyn. - Mae pob categori ffordd (A, B ac C) yn Wyrdd yn erbyn y targedau, gyda dim ond 1.5% o ffyrdd A, 1.1% o ffyrdd B a 5.4% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael. - Mae cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent gan denantiaid presennol bellach yn 2.16% o gyfanswm y rhent y gellir ei gasglu ar gyfer llety parhaol, sy'n welliant o'i gymharu â'r 3.35% ar ddiwedd Ch2. 1.3 Gofynnir i'r Pwyllgor gytuno'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd o welliannau ynghyd â'r meysydd mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu harchwilio er mwyn rheoli a sicrhau gwelliant pellach yn y dyfodol. 1.4 Argymhellir y rhain fel a ganlyn: 1.4.1 Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis - Mae'r perfformiad yn Amber oherwydd bod rhai ail-atgyfeiriadau wedi codi o ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl nad oedd modd eu rhagweld; gweler pwynt 2.2.1 o'r adroddiad am ragor o wybodaeth. 1.4.2 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) - Mae'r perfformiad yn parhau'n Goch ond yn dangos gwelliant o fis i fis, er bod y ffigur cronol ar hyn o bryd yn dal i gael ei effeithio gan etifeddiaeth prosesau hyn; gweler pwynt 2.2.2 o'r adroddiad am ragor o wybodaeth. 1.4.3 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k) - Wedi'i effeithio gan benderfyniad i

oedi cymeradwyaethau ar ddiwedd 2024 a phrinder contractwyr lleol ar gael i ymgymryd â'r gwaith; gweler pwynt 2.2.3 o'r adroddiad am ragor o wybodaeth.

- 1.4.4** Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k) - Mae'r perfformiad yn Goch oherwydd yr un ffactorau sy'n effeithio ar DFGs Canolig (ôl-groniad o achosion ac argaeledd contractwyr); gweler pwynt 2.2.3 o'r adroddiad am ragor o wybodaeth.
- 1.4.5** Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol - Methwyd y targed oherwydd dirywiad hirdymor yn y galw a mantais gystadleuol gan farinas sy'n cynnig gwell cyfleusterau cerdded ymlaen i gychod; gweler pwynt 2.2.4 o'r adroddiad am ragor o wybodaeth.
- 1.4.6** Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hyllendid Bwyd - Mae'r perfformiad wedi'i effeithio gan flaenoriaethu'r cynllun trwyddedu gweithdrefnau arbennig newydd, ond mae cynlluniau ar waith i ddal i fyny â'r archwiliadau risg uchel fel blaenoriaeth yn Ch4; gweler pwynt 2.2.5 o'r adroddiad am ragor o wybodaeth.
- 1.4.7** Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei ailddedfnyddio, ailgylchu neu gompostio - Mae'r perfformiad wedi gostwng i Goch yn bennaf oherwydd bod y tywydd sych wedi lleihau'n sylweddol faint o wastraff gwyrdd a gasglwyd; gweler pwynt 2.2.6 o'r adroddiad am ragor o wybodaeth.
- 1.4.8** Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser - Mae'r perfformiad yn parhau'n Goch oherwydd cyfyngiadau capasiti o fewn y gwasanaethau, er bod system ar-lein a phroses newydd yn cael eu datblygu i wella effeithlonrwydd; gweler pwynt 2.2.7 o'r adroddiad am ragor o wybodaeth.

B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amh.

C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol)

1. Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel ynys?

Mae'r adroddiad y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn rhoi cipolwg ar berfformiad yn erbyn amcanion strategol Cynllun y Cyngor ar ddiwedd pob chwarter.

2. A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar y Cyngor i'r dyfodol? Os felly, sut?

Gallai perfformiad rhai dangosyddion perfformiad o bosibl gael effaith ar gostau yn y dyfodol, ond mae mesurau lliniaru a gynigir yn ceisio lliniaru'r pwysau hyn.

3. A ydym wedi cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy.

Ymgwymerir ag elfennau o'r gwaith sy'n cael ei fonitro yn y Cerdyn Sgorio mewn modd cydweithredol â sefydliadau eraill fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Llywodraeth Cymru, Cadwch Gymru'n Daclus, Chwaraeon Cymru, ymhlith eraill.

4. A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.

Amh

5. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Amh

6. Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol.

Amh

7. Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Amh

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch a beth oedd eu sylwadau?

1. Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (gorfodol)	Ystyriwyd y mater hwn gan yr Tîm Arweinyddiaeth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad
2. Cyllid / Swyddog 151	Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad
3. Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad
4. Adnoddau Dynol	Sylwadau wedi ymgorffori yn yr adroddiad
5. Eiddo	

6. Technoleg Gwybodaeth	
7. Caffael	
8. Sgriwtini	Ystyriwyd y mater hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y 18/3/26. Bydd cadeirydd y pwyllgor yn adrodd yn ôl yn y cyfarfod hwn.
9. Aelodau lleol	

F – Atodiadau

Atodiad A – Adroddiad Cerdyn Sgorio Chwarter 3
--

Ff – Papurau cefndirol (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am fwy o wybodaeth)

• Cynllun y Cyngor 2023-2028 • Cerdyn Sgorio Ch2 25/26

Cerdyn Sgorio Corfforaethol 2025/26

Adroddiad Chwarter 3

Tudalen 31


Paratowyd gan – Gwasanaeth Trawsnewid

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2026

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae Cynllun y Cyngor 2023-28 yn nodi chwe amcan strategol ac yn nodi'r camau gweithredu a'r ymrwymadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.



Yr Iaith Gymraeg



**Gofal Cymdeithasol
a Llesiant**



Addysg



Tai



Economi



Newid Hinsawdd



Cynllun y Cyngor 2023 i 2028

- 1.2 Defnyddir yr adroddiad cerdyn sgorio i fonitro perfformiad ein Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ar gyfer 2024/25 wrth gyflawni gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor sy'n sail i gyflawni Cynllun y Cyngor.
- 1.3 Mae nifer o DPA yn newydd (wedi'u nodi gan [N] yn y teitlau), nid oes gan rhai ohonynt dargedau ar hyn o bryd ac maent yno i osod gwaelodlin, gyda rhywfaint o ddata ddim ar gael tan yn hwyrach yn y flwyddyn. Mae tueddiadau'n cael eu monitro o Ch2 yn ystod 2025/26 gyda'r nod o osod targedau yn 2026/27 lle bo'n briodol.
- 1.4 Mae'n darparu'r dystiolaeth i alluogi'r Cyngor i fonitro ei berfformiad a bod yn wybodus o ddata wrth nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i ysgogi a sicrhau gwelliannau perfformiad yn y dyfodol.
- 1.5 Mae'r canlyniadau o fewn y cerdyn sgorio yn gronol yn bennaf ac felly mae colofn tuedd ar gael i hysbysu'r tueddiadau perfformiad o un chwarter i'r llall. Fodd bynnag, mae rhai Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cynrychioli darlun ar adeg benodol ar ddiwedd y chwarter ac nid ydynt yn gronol. I ddangos hyn yn glir, mae'r dangosyddion penodol hyn bellach wedi'u nodi gyda [Q] yn eu teitlau.
- 1.6 Mae'r adroddiad bellach yn cynnwys cyfeiriad teithio ar gyfer pob dangosydd i ddangos a yw'r perfformiad disgwyledig i fod yn "uchaf y gorau" neu'n "isaf y gorau". Yn flaenorol nid oedd hyn yn yr adroddiad; fodd bynnag, mae'r wybodaeth bellach yn cael ei chynrychioli'n weledol gan < (isaf y gorau) neu > (uchaf y gorau) ar ddiwedd teitl y dangosydd.

- 1.7 Mae rhai newidiadau wedi'u gwneud yn yr adroddiad chwarter 3 o gymharu ag adroddiadau blaenorol yn ystod y flwyddyn, yn bennaf i deitlau a disgrifiadau ambell i ddangosyddion. Gellir gweld mwy o fanylion yn Atodiad A.
- 1.8 Gellir gweld y statws CAG ar gyfer bob adran o'r cerdyn sgorio, ac eithrio rheolaeth ariannol sy'n cael ei gwblhau o safbwynt barn broffesiynol, isod:
- Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
 - Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen peth ymyrraeth
 - Melyn – o fewn 5% i'r targed
 - Gwyrdd – wedi cyrraedd y targed, neu wedi mynd y tu hwnt iddo.

2. Trosolwg

2.1 Mae mwyafrif (86%) o'r dangosyddion sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn).

2.2 Mae wyth dangosydd ar hyn o bryd yn Goch neu'n Ambr yn erbyn eu targedau:

2.2.1 Gofal Cymdeithasol a Llesiant - 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis - AMBR - 18.60% yn erbyn targed o 15%.

Roedd 56 o'r 301 o gyfeiriadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod yn rhai ail-gyfeirio. Mae'n bwysig nodi bod y cyfeiriadau hyn yn cael eu gwneud gan asiantaethau a phartneriaid, ac er bod pob un yn cael ei adolygu gan y gwasanaeth, ni fydd pob un yn cyrraedd y trothwy ar gyfer ymyriadau pellach gan y Gwasanaethau Cymdeithasol. Cynhaliwyd adolygiad o'r achosion a gafodd eu hail-asesu o fewn 12 mis. Daeth yr adolygiad hwn i'r casgliad nad oedd yr amgylchiadau a arweiniodd at yr ail-asesu yn rhagweladwy ac na fyddai wedi bod yn bosibl eu rhagweld adeg y cau gwreiddiol. Gall y Cyngor gadarnhau y dilynwyd yr holl brosesau cywir yn yr achosion hyn. Diogelu fydd prif flaenoriaeth y Cyngor o hyd, a'i ymrwymiad i ymyrryd pan fo angen i sicrhau diogelwch plant.

2.2.2 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) – COCH – 70 diwrnod, Targed – 51 diwrnod

Er bod y perfformiad yn parhau'n Goch, mae'r duedd yn gadarnhaol, gan wella o 89 diwrnod yn Ch1 a 80 diwrnod yn Ch2 i 70 diwrnod yn Ch3. Mae'r ffigwr cronol yn dal i gael ei effeithio gan y broses hanesyddol a oedd ar waith cyn Ebrill, pan roedd eiddo a ddychwelwyd yn cymryd tua 101 diwrnod ar gyfartaledd i'w hail-osod. Ers gweithredu'r prosesau newydd ym mis Ebrill, mae'r gwasanaeth wedi gweld gwelliant cyson, gyda'r amseroedd ail-osod gryn dipyn yn is ar gyfartaledd. Bydd y gwasanaeth yn parhau i wreiddio'r prosesau hyn er mwyn cynnal y duedd gadarnhaol hon.

2.2.3 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k) - AMBR - 201 diwrnod, Targed - 190 diwrnod
ac

Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG) - addasiadau (>£10k) – COCH – 285 diwrnod, Targed - 221 diwrnod

Mae perfformiad wedi'i effeithio gan y penderfyniad i ohirio cymeradwyo prosiectau newydd ym mis Tachwedd 2024 er mwyn rheoli'r gyllideb ac osgoi gorwario, a arweiniodd at effaith gadwynol. Pan ailddechreuwyd cymeradwyo, gwelwyd cynnydd sylweddol mewn cymeradwyaethau newydd yn ystod Mai a Mehefin 2025 wrth i'r gyllideb gael ei rheoli i mewn i'r flwyddyn ariannol newydd. Erbyn hynny, roedd llawer o'r contractwyr llwyddiannus eisoes wedi symud ymlaen i brosiectau eraill, gan arwain at oedi wrth ddechrau'r contractau.

Mae'r sefyllfa'n cael ei chymhlethu ymhellach gan y nifer gyfyngedig o contractwyr lleol sydd ar gael i ymgymryd â gwaith DFG, sy'n arwain at batrwm blynyddol sy'n effeithio ar y gallu i gyflawni'r gwaith a rheoli llwyth gwaith y contractwyr. Er bod cynnydd bach wedi bod yn nifer y contractwyr lleol, nid yw llawer ohonynt yn llwyddo i ennill tendrau DFG, sy'n cyfrannu ymhellach at oedi. Yn ogystal, mewn tri achos, gohiriwyd y gwaith ar gais y cleient neu oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth y gwasanaeth.

Er cyd-destun, cwblhawyd 20 eiddo gydag addasiadau canolig a 2 eiddo gydag addasiadau mawr hyd at ddiwedd mis Rhagfyr. Ar hyn o bryd mae 55 o gynlluniau wedi'u cymeradwyo yn y system ar gyfer 2025-26.

2.2.4 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol – AMBR – 161, Targed – 173

Mae cynnydd o 10 contract angori wedi'u prynu yn ystod Ch3 yn welliant o'i gymharu â dim ond 1 a brynwyd yn Ch3 a Ch4 2024/25. O ganlyniad, mae'r perfformiad ar gyfer y cyfnod wedi symud o Goch i Ambr.

Fodd bynnag, mae'r galw am angorfeydd yn parhau i ostwng. Mae hyn yn cael ei yrru gan ostyngiad mewn perchnogaeth cychod a'r duedd gynyddol i ffafrio cyfleusterau marina 'camu ymlaen' dros fodel presennol y Cyngor. Mae'r gofyniad i lesddeiliaid brynu a gosod eu hoffer angori eu hunain hefyd yn gwneud cynnig y Cyngor yn llai cystadleuol o'i gymharu â marinas cyfagos yng Nghonwy, Caernarfon a Phwllheli.

Mae'n debygol mai dim ond drwy gyflwyno system lle mae'r Cyngor yn berchen ar yr angorfeydd ac yn eu gosod – yn debyg i'r model a ddefnyddir gan rai darparwyr eraill – y gellid cynyddu'r galw. Fodd bynnag, byddai'r buddsoddiad cychwynnol yn sylweddol ac nid yw'n realistig o fewn y gyllideb bresennol. Er gwaethaf y gwelliant yn Ch3, mae'n annhebygol iawn y bydd y targed blynyddol yn cael ei gyrraedd.

2.2.5 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hyllendid Bwyd – COCH – 65%, Targed – 90%

Cynhaliwyd 95 o'r 146 o archwiliadau a oedd yn ddisgwyliedig hyd at ddiwedd Ch3. Mae hyn yn debyg o'i gymharu â'r 64% a gyflawnwyd yn Ch2 ond yn is na'r 85% a gyflawnwyd ar ddiwedd Ch3 yn 2024/25.

Gohiriwyd archwiliadau yn gynharach yn y flwyddyn oherwydd y flaenoriaeth a roddwyd i'r cynllun trwyddedu gweithdrefnau arbennig newydd (e.e. tatŵwyr), a oedd yn gofyn am asesiadau cymhleth gan ddau swyddog. I adfer perfformiad, bydd swyddogion yn blaenoriaethu cynnal yr holl archwiliadau bwyd rhaglunedig sy'n ddisgwyliedig ac yn hwyr yn Chwarter 4 drwy dda flaenoriaethu dros dro ymweliadau cynghori risg isel a gwaith anstatudol arall.

2.2.6 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio – COCH – 65.54%, Targed - 70%

Roedd perfformiad Ch3 ar gyfer y dangosydd hwn yn 65.54% yn erbyn targed o 70%, sy'n ostyngiad o'i gymharu â'r 66.1% a gofnodwyd yn Ch3 2024/25 ac yn Ch3 2023/24.

Mae'r gyfradd ailgylchu wedi cael ei heffeithio'n negyddol gan y tywydd sych yn gynharach yn y flwyddyn, a arweiniodd at gasglu llawer llai o wastraff gwyrdd o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol. Mae'r Cyngor yn parhau i ganolbwyntio ar ei strategaeth hirdymor o leihau gwastraff cyffredinol a chynyddu ailgylchu drwy ymgysylltu â chymunedau a gwaith y tîm Ymyrraeth Wrth y Cwrw, ond bydd angen amser cyn y bydd y newidiadau ymddygiadol hyn yn cael eu hadlewyrchu yn y data.

Mae data a gwaith ymchwil cyfredol yn dangos y gall tua 52% o'r gwastraff sy'n cael ei roi mewn biniau du ar Ynys Môn gael ei ailgylchu. Oherwydd y posibilrwydd o ddirwy flynyddol o tua £350k gan Lywodraeth Cymru am beidio â chyrraedd y targed cenedlaethol o 70%, mae'r Cyngor wedi ymgynghori'n ddiweddar â thrigolion ar y posibilrwydd o:

- addasu cyfluniad y bocs troli er mwyn casglu papur a chardfwrdd gyda'i gilydd
- darparu cynwysyddion ychwanegol i aelwydydd i storio ailgylchu ychwanegol
- lleihau faint o wastraff a gesglir pob wythnos trwy wagio biniau du bob 4 wythnos yn hytrach na phob 3 wythnos

Bydd ymatebion i'r arolwg yn cael eu dadansoddi, a bydd argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol cyn gwneud unrhyw newidiadau.

- 2.2.7 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser – COCH – 79%, Targed – 90%

Mae'r perfformiad yn parhau i fod islaw'r targed oherwydd cyfyngiadau capasiti o fewn gwasanaethau i brosesu ceisiadau. Mae gwaith ar y gweill i weithredu system ar-lein newydd o fewn y CRM er mwyn symleiddio'r broses a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau'r ICO. Mae Swyddog Diogelu Data (DPO) presennol y Cyngor wedi adolygu polisi a gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer ceisiadau gwybodaeth. Disgwylir y bydd y system ar-lein newydd yn cyfrannu at wella perfformiad yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad mewn capasiti o fewn gwasanaethau i ddelio â cheisiadau gwybodaeth hefyd yn golygu bod cyrraedd y targed o 90% yn parhau i fod yn her.

- 2.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- 2.3.1 Mae 262 o oedolion bellach yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, sy'n rhagori ar y targed o 224 ac yn dangos cynnydd cyson ers Ch1.
- 2.3.2 Mae cyfranogiad yn parhau'n uchel, gyda 445,982 o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, gan ragori ar y targed o 437,943.
- 2.3.3 Penderfynwyd ar 96% o geisiadau cynllunio o fewn yr amserlen, gan barhau â'r duedd gadarnhaol a welwyd drwy gydol y flwyddyn.
- 2.3.4 Mae pob categori ffordd (A, B ac C) yn Wyrdd yn erbyn y targedau, gyda dim ond 1.5% o ffyrdd A, 1.1% o ffyrdd B a 5.4% o ffyrdd C mewn cyflwr gwael.
- 2.3.5 Cyflawnodd 100% o'r plant eu targedau (trochi) yn yr Uned Iaith Gymraeg.
- 2.3.6 Mae cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent gan denantiaid presennol bellach yn 2.16% o gyfanswm y rhent y gellir ei gasglu ar gyfer llety parhaol, sy'n welliant o'i gymharu â'r 3.35% ar ddiwedd Ch2.



3. Yr Iaith Gymraeg

Tudalen 38

	Ch1	Ch2	Ch3	Targed Ch3	CAMG Ch3	Tuedd Ch	Ch3 2024/25	Sylwadau Ch3
01) Canran o swyddi hysbysebair gan y Cyngor gyda'r gofyniad iaith Gymraeg lefel 3 ac uwch [N] [>]	85%	88%	86%	82%	G	↓	83%	
02) Nifer swyddogion sydd yn derbyn hyfforddiant iaith Gymraeg [>]	50	64	67	66	G	↓	66	
03) Nifer o gwynion sydd yn creu amheuaeth o fethiant i gwrdd â safonau iaith Gymraeg [<]	0	0	0	6	G	→	6	
04) Nifer o gwynion arweiniodd at ymchwiliad statudol gan Gomisiynydd y Gymraeg [<]	1	1	1			→	0	
05) Canran o ymweliadau â rhyngwyneb ein prif wefan yn Gymraeg [>]	9%	7%	8.4%	9%	M	↑	8%	
06) Canran yr ymatebion i ymgynghoriadau swyddogol a wnaed yn Gymraeg [>]	-	6%	6.4%	8%	M	↑	9%	
07) Canran y dilynwyr sy'n dilyn ochr Gymraeg prif gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y Cyngor [>] [Q]	23%	23%	23%	23%	G	→	23%	6233 ar Facebook a 4703 ar X
08) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] [>]								
09) Uned iaith - % o blant yn cyrraedd eu disgwyliadau (trochi) [N] [>]			100%	95%	G			
10) Nifer busnesau yn derbyn cefnogaeth iaith Gymraeg [N] [>]								Data ar gael yn Ch4



4. Gofal Cymdeithasol a Lleisiant

Tudalen 39

	Ch1	Ch2	Ch3	Targed Ch3	CAMG Ch3	Tuedd Ch	Ch3 2024/25	Sylwadau Ch3
01) Nifer yr oedolion sy'n derbyn Taliadau Uniongyrchol [>]	256	247	262	224	G	↑	231	
02) Canran yr ymholiadau amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn yr amserlen statudol [>]	96.34%	94.15%	94.31%	90%	G	↑	91.51%	
03) Canran yr oedolion sydd wedi derbyn cyngor a chymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac sydd heb gysylltu â'r gwasanaeth yn ystod y 6 mis dilynol [>]	88.07%	87.64%	88.27%	85%	G	↑	91.17%	
04) Nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal [<]	295	323	319	335	G	↑	291	
05) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn [>]	98.20%	98.60%	98.70%	93%	G	↑	96.40%	
06) Yr amser y mae'r holl blant sy'n dal i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi'i dreulio ar y gofrestr ar gyfartaledd, fel ac yr oedd pethau ar ddiwedd y chwarter [<]	163	170	181	270	G	↓	129	
07) Plant a gafodd eu Hail-gofrestru ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn 12 mis ar ôl cael eu tynnu oddi ar y gofrestr [<]	3.57%	1.56%	5.71%	15%	G	↓	0	
08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [<]	7.69%	15.68%	18.60%	15%	A	↓	13.04%	Roedd 56 o'r 301 cyfeiriad yn ail-gyfeiriadau
09) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal a oedd i fod i ddigwydd yn ystod y flwyddyn a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau [>]	90.61%	90.39%	90.98%	90%	G	↑	90.72%	
10) Canran y Cynlluniau Llwybr Cychwynnol a oedd i fod i gael eu cwblhau yn ystod y flwyddyn a gwblhawyd o fewn yr amserlenni [>]	100%	100%	100%	85%	G	→	100%	
11) Nifer o ymweliadau a Chanolfannau Hamdden [>]	129,096	260,023	404,982	421,943	M	↓	396,113	Ychydig y tu ôl i'r targed yn rhannol oherwydd cau Canolfan Hamdden Caergybi ar gyfer atgyweiriadau hanfodol
12) Nifer y cyfranogiadau yng ngweithgareddau Môn Actif [N] [>]	146,746	296,458	445,982	437,943	G	↑		
13) Canran o rieni sy'n teimlo eu bod wedi gweld cynnydd yn dilyn cwblhau y rhaglen Positive Parenting Programme (PPP) [N] [>]								Data ar gael yn Ch4

5. Addysg



Tudalen 40

	Ch1	Ch2	Ch3	Targed Ch3	CAMG Ch3	Qtr Trend	Q3 2024/25	Sylwadau Ch3
01) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (pob tymor) [>]	93.2%	93.2%	92.7%	95%	M	↓	93.1%	Tymor yr Hydref Blwyddyn Academaidd 25/26
02) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (pob tymor) [>]	88.2%	89.7%	88.4%	90%	M	↓	88.3%	Tymor yr Hydref Blwyddyn Academaidd 25/26
03) Canran gadawyr Blwyddyn 11 sydd ddim mewn Addysg, Hyfforddiant neu Gyflogaeth [NEET] [<]								Data ar gael yn Ch4
04) Nifer yr ysgolion mewn Categori Dilynol / Statudol gan Estyn [<]	1	1	1			→	0	Tymor yr Hydref Blwyddyn Academaidd 25/26
05) Nifer y plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu gwahardd o'r ysgol yn barhaol [<]	23	2	15			↓	13	Tymor yr Hydref Blwyddyn Academaidd 25/26
06) Nifer / cyfran yr ysgolion â chynllun adfer ariannol [<][Q]	6	6	6	6	G	→	6	
07) Canran yr oedolion sy'n credu, ar y cyfan, fod y gwasanaeth llyfrgell maen nhw'n ei ddefnyddio yn 'dda iawn' neu'n 'dda' [N] [>]								Data ar gael yn Ch4
08) Y sgôr cyfartalog gyffredinol allan o ddeg a roddwyd gan ddefnyddwyr 16 oed neu iau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell y maent yn ei ddefnyddio [N] [>]								Data ar gael yn Ch4
09) CDU - canran o blant sy'n cyrraedd eu targedau [N] [>]								Data ar gael yn Ch4
10) Nifer y camau cynnydd lefel Nofio Môn a gyflawnwyd fel rhan o weithgareddau Môn Actif [N] [>]	924	1610	2286	2020	G	↑		



6. Tai

Tudalen 41

	Ch1	Ch2	Ch3	Targed Ch3	CAMG Ch3	Qtr Trend	Q3 2024/25	Sylwadau Ch3
01) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau atgyweiriadau ymatebol [<]	15	14	15	18	G	↓	15	
02) Canran y tenantiaid a oedd yn fodlon â'r atgyweiriadau ymatebol [>]	84%	88%	87%	85%	G	↓	87%	Roedd 1237 o'r 1427 arolwg a ddychwelwyd yn fodlon
03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod) [N] [<]	89	80	70	51	C	↑		Gwelliant parhaus gyda gweithredu polisi newydd. Ar gyfer pob uned ers mis Ebrill, roedd yr amser gwag cyfartalog yn 57.8 diwrnod
04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau (£1k-10k) [<]	205	204	201	190	A	↑	190	Mae 20 cais DFG wedi'u cwblhau, cyfanswm o 4017 diwrnod
05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - addasiadau (>£10k) [<]	285	285	289	221	C	→	229	Dim newid o Ch2 - 2 gais DFG â gwerth dros £10k ar gyfer y flwyddyn
06) Nifer y Tai Cyngor a ddatblygwyd o'r newydd a nifer yr hen Dai Cyngor a brynwyd yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor [>]	4	13	20	22	M	↓	50	
07) Cyfanswm dyledion rhent tenantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent y mae modd ei gasglu drwy lety parhaol [<] [Q]	3.19%	3.35%	2.16%	3.10%	G	↑	2.91%	
08) Nifer yr eiddo gwag preifat a ddaethpwyd yn ôl i ddefnydd drwy'n hymyraethau Tai Gwag [>]	15	32	55	42	G	↑	43	
09) Canran yr aelwydydd a ataliwyd rhag mynd yn ddigartref [>]	80%	90%	95%	85%	G	↑	95.4%	
10) Nifer y ceisiadau am gymorth gyda digartrefedd (asesiadau adran 62) [<] [Q]	117	292	462			↑	452	
11) Nifer yr Aelwydydd mewn Llety Brys a Dros Dro ar hyn o bryd [<] [Q]	79	84	73			↑	100	



7. Economi

	Ch1	Ch2	Ch3	Targed Ch3	CAMG Ch3	Qtr Trend	Q3 2024/25	Sylwadau Ch3
01) % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd [>]	70%	112%	109%				53%	
02) Gwariant (cyfalaf a refeniw) ar brosiectau isadeiledd, datblygu economaidd ac adfywio (£) [N] [>]	£1.653m	£2.758m	£7.971m					
03) Canran yr unedau busnes a masnachol osodwyd gan y Cyngor [N] [>] [Q]	95%	98%	98%	90%	G	→		
04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blynyddol [>]	100	151	161	173	A	↑	191	Cytunwyd ar 10 contract angori yn Ch3 o'i gymharu ag 1 yn 2024/25
05) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd [>]	94%	95%	96%	90%	G	↑	98%	
06) Canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod [>]	87%	79%	81%	80%	G	↑	92%	
07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd [>]	85%	64%	65%	90%	C	↑	85%	Bydd swyddogion yn blaenoriaethu cynnal pob archwiliad bwyd wedi'i raglennu sy'n ddyledus ac sydd wedi mynd yn hwyr yn Chwarter 4 drwy roi llai o flaenoriaeth i ymweliadau cynghori risg isel a gwaith arall nad yw'n statudol am y tro. Mae'r archwiliadau wedi'u dyrannu i swyddogion, ac mae cynnydd yn cael ei fonitro.
08) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd y safonau hylendid bwyd [>]	99%	99%	99%	95%	G	→	99%	
09) Nifer yr ymyriadau SPF sy'n cefnogi llwybrau at gyflogaeth [N] [>]	162	320	1120			↑		



8. Newid Hinsawdd

Tudalen 43

	Ch1	Ch2	Ch3	Targed Ch3	CAMG Ch3	Qtr Trend	Q3 2024/25	Sylwadau Ch3
01) Cyfanswm yr allyriadau carbon sy'n dod o adeiladu'r cyngor (tCO2e) [<]								
02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio [>]	65.95%	66.36%	65.54%	70%	C	↓	66.1%	Ymgynghoriad gyda thrigolion ar ddyfodol casgliadau gwastraff ar yr ynys
03) Canran y gwastraff a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio o adeiladu'r Cyngor [>]	46%	44.4%	44.1%			↓	48%	
04) Canran y strydoedd sy'n lân [>]	100%	100%	99.80%	96%	G	↓	98%	
05) Nifer o ddiwrnodau a gymerwyd ar gyfartaledd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon [<]	0.01	0.03	0.03	1	G	→	0.09	
06) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<]			1.5%	1.8%	G	↑	1.8%	
07) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<]			1.1%	1.6%	G	↑	1.6%	
08) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol) [<]			5.4%	7.3%	G	↑	7.3%	
09) Cyfanswm allyriadau carbon fflyd y Cyngor (tCO2e inc WTT) [<]	156.5	311.02	469.63	451	M	↓	451	
10) Nifer o Ysgolion yn cymryd rhan mewn cynlluniau Newid Hinsawdd wedi eu achredu [N] [>]								Data ar gael yn Ch4
11) Nifer o systemau gwresogi carbon isel wedi eu gosod yn adeiladau y Cyngor [N] [>]		11	16					Cwblhawyd 16 gosodiad gyda 18 arall wedi'u cynllunio
12) Defnydd o bwyntiau gwefru cyhoeddus y Cyngor (kwh) [N] [>]	76,786	149,427	189,617			↓		Mae hyn yn gyfwerth â gyrru o South Stack, Caergybi i Bont Borth ac yn ôl 14,700 o weithiau

9. Iechyd Cyngor Cyfan

	CAMG	Tuedd	Cyllideb	Canlyniad	Amrywiant (%)	Rhagolygon o'r Gwariant	Amrywiant a Ragwellir (%)
01) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Refeniw) [<]	G	↑	£192,983,000			£192,179,000	-0.42%
02) Alldro a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn (Cyfalaf) [>]		↓	£42,074,000			£33,089,000	-21.36%
03) Incwm yn erbyn Targedau (ac eithrio grantiau) [>]	G	↓	-£12,238,709	-£14,427,347	17.88%		
04) Balansau cyffredinol a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn [>]		↑				-£17,572,000	
05) Cost benthyca - % y gwariant refeniw a gyllidwyd ar ei gyfer [<]	G	→	2.35%			2.35%	
06) Nifer y Gwasanaethau a ragwelir yn gorwario mwy na 5% o'u cyllideb [<]		→				2	
07) % y Dreth Gyngor a gasglwyd (ar gyfer y 3 bl diwethaf) [>]	M	↑		97.4%			
08) % y Môn Ddyledion a gasglwyd (ar gyfer y 3 bl diwethaf) [>]	M	↑		91.8%			

Tudalen 44

	Ch1	Ch2	Ch3	Targed Ch3	CAMG Ch3	Tuedd	Sylwadau Ch3
09) Cyfanswm y cwynion cam 2 a gafodd eu cadarnhau / cadarnhau'n rhannol [<]	1	3	13	10	M	↓	2 Gwasanaethau Cymdeithasol, 11 Corfforaethol - Proses CRM newydd mewn lle sydd wedi arwain at gwelliant yn y monitro
10) Cyfanswm % y cwynion cam 2 a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 20 diwrnod (Corfforaethol) [>]	100%	87%	78%	80%	M	↓	
11) Cyfanswm % y cwynion a gafodd ymateb ysgrifenedig fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) [>]	80%	80%	82%	80%	G	↑	
12) % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser [>]	74%	76%	79%	90%	C	↑	Gwelliant bach yn ystod Ch3, ond dal yn fyr o'r targed
13) Cyfran yr ymholiadau a gafodd eu datrys a'u cau gan Cyswllt Môn (heb eu hanfon ymlaen at Wasanaeth) [>]	32%	35%	35%			→	
14) Nifer y staff yn yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE)	2376	2380	2380			→	
15) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd [<]	1.93	3.93	6.58	6.83	G	↓	
16) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE	0.92	1.73	2.46			↑	
17) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd fesul FTE	1.01	2.2	4.02			↓	
18) Gweithwyr sydd wedi gadael yr Awdurdod Lleol (%) (Trosiant) [<]							
19) % y swyddi a gafodd eu hysbysebu a'u llenwi ar ôl cael eu hysbysebu unwaith [>]	78%	73%	69%	70%	M	↓	

10. Casgliad ac Argymhellion

- 10.1 Mae'r perfformiad o 86% o'r dangosyddion perfformiad yn well neu o fewn 5% i'w targedau ar gyfer y chwarter yn gadarnhaol.
- 10.2 Mae'n dangos bod gwasanaethau'n gweithredu yn unol â gwerthoedd ac egwyddorion cyffredinol y Cyngor.
- 10.3 **Argymhelliad – bod y Tîm Arweinyddiaeth yn rheoli, ymchwilio a sicrhau gwelliannau i'r dyfodol ar gyfer y DPA a ganlyn:**
 - 10.3.1 Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 08) Canran y cyfeiriadau plant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis;
 - 10.3.2 Tai - 03) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ail-osod unedau llety (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod);
 - 10.3.3 Tai – 04) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (£1k-10k);
 - 10.3.4 Tai – 05) Nifer y dyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)– addasiadau (>£10k);
 - 10.3.5 Economi – 04) Cyfanswm y cwsmeriaid â chytundeb angori blyneddol
 - 10.3.6 Economi - 07) Canran y busnesau risg uchel sy'n cael eu harchwilio'n rheolaidd a archwiliwyd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddfwriaeth Hylendid Bwyd
 - 10.3.7 Newid Hinsawdd – 02) Canran y gwastraff domestig a gafodd ei aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio;
 - 10.3.8 Iechyd Cyngor Cyfan - 12) % y Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a dderbyniodd ymateb o fewn y cyfnod amser.

11. Atodiad A – Diwygiadau Sicrhau Ansawdd

- 11.1 Yn dilyn proses Sicrhau Ansawdd (QA), mae teitlau tri Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) wedi'u diwygio yn ystod y chwarter hwn er mwyn adlewyrchu'n well sut mae eu perfformiad yn cael ei gyfrifo. Yn flaenorol, roedd y teitlau hyn yn cyfeirio at nifer y "bobl" neu "plant", a oedd yn awgrymu bod unigolion unigryw yn cael eu mesur. Fodd bynnag, gall unigolyn gael ei gyfrif sawl gwaith o fewn y cyfrifiadau hyn (er enghraifft, drwy gyfranogiadau lluosog, ymyriadau neu gynnydd drwy wersi). Er mwyn sicrhau mwy o eglurder, mae'r teitlau wedi'u diweddarau. Dylid nodi nad yw'r data na'r dull cyfrifo wedi newid – dim ond teitlau'r dangosyddion sydd wedi'u diwygio. Mae'r dangosyddion sydd wedi'u diwygio fel a ganlyn:
- 11.1.1 Gofal Cymdeithasol a Llesiant – 12) Yn flaenorol "Nifer o bobl wedi ymwneud â gweithgareddau Môn Actif" bellach yn "Nifer y cyfranogiadau yng ngweithgareddau Môn Actif".
- 11.1.2 Addysg – 10) Yn flaenorol "Nifer y plant sydd wedi symud i fyny, neu wedi cwblhau, Rhaglen Nofio Môn fel rhan o weithgareddau Môn Actif" bellach yn "Nifer y camau cynnydd lefel Nofio Môn a gyflawnwyd fel rhan o weithgareddau Môn Actif".
- 11.1.3 Economi - 09) Yn flaenorol "Nifer o bobl wedi eu cefnogi i baratoi ar gyfer byd gwaith, drwy ymyraethau SPF" bellach yn "Nifer yr ymyriadau SPF sy'n cefnogi llwybrau at gyflogaeth".
- 11.2 Yn ogystal, yn dilyn y broses Sicrhau Ansawdd, mae canlyniadau Ch2 ar gyfer tri dangosydd wedi'u diwygio yn yr adroddiad hwn er mwyn adlewyrchu'r ffigurau cronol yn gywir. Mae'r dangosyddion hyn i gyd yn perthyn i'r adran Economi:
- 11.2.1 Economi 01) % grant economaidd a datblygu / adfywio a dderbyniwyd ac a ddefnyddiwyd
- 11.2.2 Economi 02) Gwariant (cyfalaf a refeniw) ar brosiectau isadeiledd, datblygu economaidd ac adfywio (£)
- 11.2.3 Economi 09) Nifer o bobl wedi eu cefnogi i baratoi ar gyfer byd gwaith, drwy ymyraethau SPF (bellach dan y teitl "Nifer yr ymyriadau SPF sy'n cefnogi llwybrau at gyflogaeth")

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	24 MAWRTH 2026
PWNC:	FFRAMWAITH RHYDDHAD TRETHI BUSNES DEWISOL - ELUSENNAU A SEFYDLIADAU NID-ER-ELW
DEILYDD PORTFFOLIO:	Y CYNG ROBIN WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID, BUSNES CORFFORAETHOL A PHROFIAD Y CWSMER
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / A SWYDDOG ADRAN 151
AWDUR YR ADRODDIAD: FFÔN: E-BOST:	LLINOS M ROBERTS, RHEOLWR GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU
AELODAU LLEOL:	AMHERTHNASOL
A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau:	
Argymhelliad Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo ymestyn y polisi cyfredol am gyfnod o 1 blwyddyn, hyd at 31 Mawrth 2027. Bod y Cyngor yn ymgynghori gyda'r sefydliadau hynny sy'n derbyn rhyddhad drwy'r polisi ar hyn o bryd i benderfynu ar y polisi o fis Ebrill 2027 ymlaen. Cefndir Cymeradwywyd y polisi cyfredol gan y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2026 (mae copi o'r adroddiad ynghlwm fel Atodiad 1). O ystyried bod trethi annomestig wedi eu hailbrisio, gyda hynny'n dod i rym ar 1 Ebrill 2026, a bod newidiadau i gynlluniau rhyddhad eraill a threfniadau trosiannol, credwyd nad oedd newid arall i'r polisi hwn yn addas ac y gallai effeithio ymhellach ar sefydliadau fyddai'n cael eu heffeithio gan y newid sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2026. Mae'r polisi cyfredol yn darparu swm sylweddol o gymorth ariannol i nifer fawr o sefydliadau elusennol ac nid-er-elw ac mae dal yn fforddiadwy, er bydd y newidiadau i brisiadau eiddo a lefel y lluosydd yn arwain at newid yn y gost o ddarparu'r rhyddhad. Drwy ohirio gweithredu'r polisi newydd, bydd hefyd yn galluogi'r Cyngor i bennu cost y polisi yn 2026/27, a all ddylanwadu ar y polisi o fis Ebrill 2027 ymlaen.	
B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?	
I weithredu'r polisi newydd am gyfnod estynedig, e.e. 5 mlynedd. Fodd bynnag, gwrthodwyd hyn am y rhesymau a nodwyd uchod.	
C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?	
Mae derbyn y polisi hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith gan y Cyngor.	
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?	
Mae'r polisi'n cefnogi sefydliadau sy'n gweithredu ledled yr Ynys i gefnogi cymunedau, yr economi a'r iaith Gymraeg, sy'n amcanion yng Nghynllun y Cyngor.	

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Mae'r gyllideb ar gyfer 2026/27 yn cynnwys swm o £108k i gwrdd â chost y rhyddhad a ddyfarnwyd.		
Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion hirdymor fel Ynys?	Bydd ymestyn y polisi yn galluogi sefydliadau sy'n cefnogi cymunedau ledled yr Ynys i barhau i dderbyn cymorth ariannol.
2	A ragwelir y bydd y penderfyniad hwn yn atal costau/dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut?	Mae'r polisi'n cael ei gyllido ar hyn o bryd. Bydd y gost ariannol o newid yn y polisi yn cael ei gynnwys yng nghyllideb 2027/28.
3	A fuom yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, nodwch gyda phwy	Mae'r polisi yn bolisi dewisol sy'n cael ei bennu gan Ynys Môn yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth gynllunio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Cwblhawyd proses ymgynghori pan gafodd y polisi gwreiddiol ei baratoi, a bydd ymgynghoriad pellach yn cael ei gynnal cyn cymeradwyo'r polisi newydd fis Ebrill 2027.
5	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Cwblheir asesiad wrth ddrafftio'r polisi newydd o fis Ebrill 2027 ymlaen.
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol.	Nid oes unrhyw newid wedi ei gynnig ar gyfer y polisi yn ystod 2026/27. Cwblheir asesiad cyn gweithredu'r polisi newydd fis Ebrill 2027.
7	Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Ni nodwyd unrhyw effaith.
E - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA) (gorfodol)	Mae sylwadau'r TA wedi'u hymgorffori yn yr adroddiad ac mae'r TA yn cefnogi'r adroddiad drafft.
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Amherthnasol - adroddiad y Swyddog Adran 151 yw hwn.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol)	Mae'r Swyddog Monitro yn aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau wedi cael eu hystyried wrth drafod yr adroddiad hwn yn y TA.
4	Adnoddau Dynol (AD)	Ddim yn berthnasol
5	Eiddo	Ddim yn berthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	Ddim yn berthnasol
7	Sgriwtini	Ddim yn berthnasol
8	Aelodau Lleol	Ddim yn berthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Ddim yn berthnasol
F - Atodiadau		
Atodiad 1 - Adroddiad Pwyllgor Gwaith - 17 Chwefror 2020		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
Dim		

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	17 CHWEFROR 2020
PWNC:	FFRAMWAITH AR GYFER RHYDDHAD TRETHI BUSNES DEWISOL - ELUSENNAU A SEFYDLIADAU DIELW
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD ROBIN WYN WILLIAMS (AELOD PORTFFOLIO AR GYFER CYLLID)
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES (CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151
AWDUR YR ADRODDIAD: Rhif ffôn: e-bost:	GERAINT H JONES (RHEOLWR Y GWASANAETH REFENIW A BUDD-DALIADAU) 01248 752651 GeraintHJones@ynysmon.gov.uk
AELODAU LLEOL:	DIM YN BERTHNASOL
A – Argymhelliad/Argymhellion a'r Rheswm/Rhesymau	
ARGYMHELLION - Bod y Pwyllgor Gwaith yn mabwysiadu Fframwaith ar gyfer Rhyddhad Trethi Busnes Dewisol - Elusennau a Sefydliadau Dielw fel y manylir yn Atodiad C. - Y bydd ei Fframwaith ar gyfer Rhyddhad Trethi Busnes Dewisol mewn grym ar gyfer y blynyddoedd ariannol hyd at 31 Mawrth 2026. - Bod y Pwyllgor Gwaith yn rhoi cyfarwyddiadau i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 sicrhau y rhoddir gwybod cyn 31 Mawrth 2020 i elusennau perthnasol a sefydliadau dielw y bydd y polisi mewn grym o 1 Ebrill 2020 ac y daw i ben ar 31 Mawrth 2026. CEFNDIR Mae'n rhaid i eiddo annomestig (ar wahân i rai eithriadau, megis amaeth, addoldai, adeiladau a ddefnyddir gan bobl anabl ac ati) dalu trethi annomestig. Yr enw cyffredin ar y trethi hyn yw trethi busnes, er nad yw pawb sy'n eu talu yn fusnesau yn yr ystyr gyffredin. Yn wir, mae'r system o rhyddhadau wedi'i dylunio'n rhannol i liniaru baich trethiant ar ddeiliaid ar wahân i fusnesau. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru roi cymorth trethi mandadol i elusennau yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (DCLIL88), fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Dan DCLIL88, gall Awdurdodau Lleol hefyd roi cymorth dewisol neu ryddhad o'r trethi o hyd at 100% o'r trethi sy'n daladwy. Mae hyn yn berthnasol i eiddo a ddefnyddir gan:- - Elusennau ("ychwanegiad o 20%" yn ogystal â'r cymorth mandadol o 80%); - Sefydliadau dielw eraill. Mae costau caniatáu cymorth dewisol tuag at drethi busnes yn cael eu hysgwyddo'n rhannol gan y Gronfa ar gyfer Trethi Annomestig (h.y. Llywodraeth Cymru) a chan drethdalwyr lleol.	

Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo 90% o'r gost mewn perthynas â sefydliadau dielw. Mae hynny'n golygu bod pob £1 a werir gan y Cyngor yn prynu cymorth sy'n werth £10 i'r trethdalwr.

Fodd bynnag, yn achos yr "ychwanegiad 20%", mae Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo 25% o'r gost. Mae hynny'n golygu bod pob £7.50 a warir gan y Cyngor yn prynu cymorth sy'n werth £10 i'r trethdalwr.

PENDERFYNIAD Y PWYLLGOR GWAITH YN CHWEFROR 2019

Ar 18 Chwefror 2019, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ymestyn ei Fframwaith ar gyfer Rhyddhad Trethi Busnes Dewisol i Elusennau a Sefydliadau Dielw am gyfnod o flwyddyn. Yn ogystal, penderfynodd gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith yn ystod hanner cyntaf 2019/20 gyda'r fframwaith diwygiedig (os yn berthnasol) yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020. Cynhaliwyd ymgynghoriad 3 Haen o dan Gynllun Ch1 Ymgynghori ac Ymgysylltu'r Cyngor gyda dyddiad cau o 31 Awst 2019. Cysylltwyd â'r holl drethdalwyr sy'n gymwys i gael rhyddhad dewisol o dan y polisi cyfredol.

Roedd yr ymateb yn siomedig, gyda dim ond 4 yn ymateb (a 2 yn gwneud hynny'n ddienw). Rhestrir yr ymatebion yn Atodiad A (heblaw am yr ymatebion dienw). Rhoddir crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn Atodiad B. O gofio nifer fechan yr ymatebion, cynigir na ddylid newid y polisi cyfredol ond, yn hytrach nag ymestyn y polisi bob blwyddyn, cynigir y dylid sefydlu polisi am gyfnod penodol i gyd-fynd â'r cylch ailbrisio pum mlynedd. Gwelir y polisi i'w fabwysiadu yn Atodiad C. Gall Aelodau ddewis diwygio'r fframwaith yn ystod y cyfnod hwn ond mae'n rhaid rhoi rhybudd o un flwyddyn ariannol lawn o leiaf i drethdalwyr.

Dylai Aelodau nodi y bydd yr ailbrisiad trethi annomestig nesaf yng Nghymru yn digwydd yn 2021. Dylai Aelodau nodi ymhellach mai'r hyn a wneir yma yw mabwysiadu fframwaith rhyddhad ardrethi busnes dewisol i ystyried ceisiadau am ryddhad trethi dewisol. Mae'n rhaid i'r Awdurdod barhau i ystyried unrhyw gais a allai fod y tu allan i'r fframwaith a gallai gwrthod cais o'r fath oherwydd nad yw o fewn y fframwaith fod yn "ultra vires".

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Mae'r polisi cymorth cyfredol wedi bod yn llwyddiant yn yr ystyr nad oes bron unrhyw geisiadau wedi dod i law nad ydynt wedi'u cynnwys yn y polisi. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y ceisiadau sy'n cael eu hystyried yn unigol. Mae'r ymatebion a gafwyd (a'r diffyg ymatebion) i'r ymgynghoriad yn awgrymu bod y polisi cyfredol yn cael ei dderbyn yn gyffredinol ac nid yw unrhyw agwedd o'r polisi wedi ei herio'n ddifrifol.

Byddai peidio ag ymestyn y polisi dewisol cyfredol i roi rhyddhad trethi busnes i Elusennau a Sefydliadau Dielw neu fabwysiadu polisi am gyfnod sefydlog, yn golygu y byddai'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 ddelio gyda phob cais yn unigol, gan roi ystyriaeth i ganllawiau gan Lywodraeth Cymru a pholisïau/canllawiau'r Pwyllgor Gwaith. (Gweler Cyfansoddiad y Cyngor – Cynllun Dirprwyo i Swyddogion Penodol (Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 a'r ddyletswydd benodol y manylir arni dan 3.5.3.5.19).

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?
Mae'r penderfyniadau i roi rhyddhad o'r Dreth Fusnes i elusennau a sefydliadau dielw wedi cael ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith greu canllawiau a fframwaith i'r swyddog yma gyfeirio atynt i sicrhau cysondeb a thegwch o ran y penderfyniadau.
CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?
Mae'r polisi hwn yn cyfrannu at nodau corfforaethol yr Awdurdod – sef, yn bennaf, adfywio ein cymunedau a datblygu'r economi a thrawsnewid gwasanaethau hamdden.
D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?
Mae cyllideb o £70k wedi'i chlustnodi o fewn cyllideb ddrafft 2020/21 (wedi ei gynyddu o £60k). Y gwariant a ragwelir ar ddiwedd chwarter 3 yw £63k *.

*Mae'r ffigwr hwn yn adlewyrchu addasiadau ar gyfer blynyddoedd blaenorol yn ystod 2019/20. Mae hyn yn wahanol i Atodiad C sy'n dangos ffigyrau ar gyfer 2019/20 yn unig.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Nodwyd cynnwys yr adroddiad gan yr UDA
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Awdur yr Adroddiad
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Aelod o'r UDA
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	
10	Unrhyw gyrff allanol eraill	
E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Hyd yn oed os na fyddai'r fframwaith yn cael ei dderbyn, ni fyddai hyn yn cael effaith mawr ar yr economi - byddai'r cyrff yn medru gwneud ceisiadau am ryddhad
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
Atodiad A - Ymatebwyr heblaw am rai dienw. Atodiad B - Crynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau gofynnwyd yn yr ymgynghoriad. Atodiad C - Fframwaith ar gyfer Rhyddhad Trethi Busnes Dewisol i Elusennau a Sefydliadau Dielw		
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		

Penderfyniad gan Bwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn dyddiedig 18 Chwefror 2019
Cynllun Rhyddhad Trethi Busnesau Bach i Gymru 2018 (cynllun newydd)
Cyhoeddiad ynghylch Cynllun Rhyddhad Trethi Stryd Fawr - 14 Ionawr 2020

ATODIAD A

Ymatebwyr (heblaw am rai dienw)

- Clwb hwylio Traeth Coch
- Cymdeithas Gymunedol David Hughes

C1: A ddylai'r Awdurdod barhau i adnewyddu ei fframwaith yn flynyddol neu benderfynu ar fframwaith am gyfnod sefydlog o ddim hwy na 2, 3, 4 neu 5 mlynedd? A ddylai adolygiad y fframwaith fod yn gysylltiedig â'r cyfnod sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Cyngor yr Awdurdod (5 mlynedd fel arfer)neu ddyddiad yr ailbrisiad trethiannol nesaf (5 mlynedd fel arfer)?

Cytunodd y 4 a ymatebodd y dylid cynnal adolygiad bob 5 mlynedd.

C2: Ydych chi'n cytuno na ddylai'r Cyngor roddi mwy na'r rhyddhad mandadol 80% i siopau elusen sydd â gwerth trethiannol o £12,000 neu fwy?

'Roedd 3 yn cytuno na ddylid rhoi rhyddhad os yw'r gwerth ardrethol yn £12,000 neu fwy. 1 yn anghytuno.

C3: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cyngor roddi mwy na'r rhyddhad mandadol 80% i siopau elusen sydd â gwerth trethiannol o £6,000 neu lai ac y dylid rhoddi'r rhyddhad dewisol 20% yn llawn?

Y 4 yn cytuno.

C4: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cyngor roddi mwy na'r rhyddhad mandadol 80% i siopau elusen sydd â gwerth trethiannol o fwy na £6,000 a llai na £12,000 ond na ddylid rhoddi'r rhyddhad dewisol 20% yn llawn?

3 yn cytuno. 1 yn anghytuno.

C5: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Cyngor ystyried rhoddi mwy na'r rhyddhad Mandadol 80% i siop elusen sy'n ymwneud yn llwyr â gweithgareddau lleol yn unig?

3 yn cytuno. 1 yn anghytuno

C6: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod gynyddu ei gyllideb i gwrdd â'r gost o unrhyw ryddhad dewisol ychwanegol a roddir, er enghraifft, i siopau elusen, neu a ddylai gadw ei gyllideb gyfredol?

3 yn cytuno. 1 yn dweud y dylid codi gyda chwyddiant ond nid ar draul gwasanaethau cyhoeddus hollbwysig.

C7: A ddylai'r Awdurdod ystyried cyfyngu faint o ryddhad dewisol a roddir i rai sefydliadau dielw penodol gan roi er enghraifft 50%, 60%, 70%, 80% neu 90% o ryddhad lle mae 100% yn cael ei roi ar hyn o bryd neu, yng nghyswllt y rhyddhad "ychwanegol" i elusennau, rhoi 10% yn hytrach nag 20% i gwrdd â chost y rhyddhad ychwanegol i siopau elusen?

3 yn cytuno. 1 heb wneud sylwadau.

C8: O'r disgrifiad o sefydliadau a welir yn Atodiad A, a ddylai sefydliadau sydd â'u hamcanion yn sylweddol debyg i amcanion y Cyngor ac sy'n gwasanaethu trigolion yr Ynys yn bennaf barhau i gael rhyddhad o 100%, ac ar gyfer sefydliadau lle mae'r Cyngor yn cefnogi eu hamcanion ond lle nad oes tebygrwydd sylweddol gydag amcanion y Cyngor neu nad ydynt yn gwasanaethu trigolion yr Ynys yn bennaf, barhau i gael rhyddhad o 80%?

3 yn cytuno. 1 yn dweud y dylid rhoi rhyddhad yn seiliedig ar amcanion y Cyngor a gwasanaethau i drigolion yr Ynys.

C9: A ddylai clybiau chwaraeon sydd wedi ennill y statws CASC dderbyn mwy o ryddhad h.y. rhyddhad mandadol 80% a hefyd rhyddhad dewisol 20% o gymharu â'r rheini nad ydynt wedi derbyn statws CASC, er enghraifft rhoddi 80% o rhyddhad dewisol o gymharu â 100% o dan y polisi cyfredol?

3 yn cytuno. 1 yn anghytuno.

C10: Ydych chi'n cytuno bod y diffiniad CASC dal yn deg ac yn rhesymol ar gyfer rhoddi rhyddhad dewisol i glybiau chwaraeon – gweler Atodiad C

2 yn cytuno. 1 yn ansicr ac 1 yn dweud y dylai dogfen lywodraethu'r clwb gynnwys cymal bod y clwb yn agored i bawb ni waeth beth fo'u hil, crefydd, daliadau gwleidyddol, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

C11: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Awdurdod barhau gyda'i bolisi o beidio creu gwahaniaeth ar y sail bod gan glwb chwaraeon far trwyddedig neu beidio?

2 yn cytuno. 1 heb farn ac 1 yn ansicr.

C12: Rydym yn cynnig peidio newid y polisi hwn. Ydych chi'n cytuno?
(ar gyfer sefydliadau addysgol a chysylltiedig)

Y 4 yn cytuno.

C13: Rydym yn cynnig peidio newid y polisi hwn. Ydych chi'n cytuno?
(ar gyfer sefydliadau sy'n hyrwyddo adfywiad trefol a gwledig neu sy'n lleihau diweithdra)

Y 4 yn cytuno.

C14: Rydym yn cynnig peidio newid y polisi hwn. Ydych chi'n cytuno?

(ar gyfer cyrff sy'n hywrwyddo cydraddoldeb hiliol neu'n cefnogi grwpiau lleiafrifoedd ethnig)

Y 4 yn cytuno

C15: Mae'r pedwar cwestiwn cyntaf yn galluogi'r Awdurdod i leihau faint o ryddhad sydd ar gael i gyrff os yw cyfran sylweddol o'r aelodau ddim yn breswylwyr yr Ynys, oherwydd bod y budd i drethdalwyr y Cyngor yn llai amlwg. Ydych chi'n parhau i gefnogi'r ymagwedd hon? Os felly, ydy'r cyfyngiad cyfredol yn rhesymol ar 80% o ryddhad tuag at bil trethi busnes? A ddylai fod yn fwy neu'n llai?

C16: Mae'r meini prawf hyn mewn bodolaeth ers mis Ebrill 2003. Beth yw eich barn am y meini prawf hyn? A ddylid rhoi mwy o bwysigrwydd i rai a sut byddai hyn yn effeithio ar faint o ryddhad dewisol a roddir? A ydym ni wedi gadael allan unrhyw feini prawf? (gofynnwyd am farn am y meini prawf a ddefnyddir i asesu pob cais)

Ar gyfer C15. Cytunodd 1 fod 80% yn ddigon. Roedd 2 yn dymuno'i godi i 100% a nododd 1 ei fod yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

Ar gyfer C16. Nododd 3 y dylai aros yr un fath. Nododd 1 nad oedd unrhyw feini prawf wedi'u hepgor a bod y meini prawf yn ddigon hyblyg.

C17: Pa effaith, yn eich barn chi, fyddai'r cynigion yn ei gael ar yr iaith Gymraeg o ran y gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith?

Nododd 3 na fyddent yn cael unrhyw effaith. Nododd 1 bod angen cefnogi sefydliadau sy'n gweithredu trwy gyfrwng y Gymraeg.

C18: A oes modd ffurfio neu newid y polisi arfaethedig i gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg neu yn yr un modd fel nad oes effeithiau negyddol ar ei defnyddio ac i beidio trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg?

Nododd 2 nad oedd modd. Nododd 1 ei fod yn amhosib ei weinyddu mewn ardal lle mae'r ddwy iaith yn cael eu defnyddio'n gyfartal. Cytunodd 1 y dylid newid y polisi i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

C19: A ddylai elusennau neu sefydliadau dielw sy'n cydymffurfio neu'n gweithio tuag at gydymffurfio â'r un safonau ag y mae'r Awdurdod wedi eu mabwysiadu dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 dderbyn rhyddhad dewisol ychwanegol tuag at drethi busnes? Pa anawsterau ymarferol a welwch chi gyda chynllun o'r fath?

3 yn anghytuno ac 1 yn dweud bod hynny'n fath o wahaniaethu. 1 yn cytuno.

ATODIAD C

Categori	Disgrifiad	Mandadol	Dewisol	Cyfanswm	Cost i'r Cyngor	Nifer
A (1)	Neuaddau Pentref, Canolfannau Cymunedol, Sefydliadau Coffadwrol, Clybiau Hen Bobl, Cymdeithasau Sgowntiaid a Geldiaid, Cadlanciau'r Môr, Hosbis, Cylchau Chwarae	80% £135,935	20% £26,475	100% £162,410	£19,856	58
A (2)	Diogelwch Arforol	80% £44,240	20% £8,616	100% £52,856	£6,462	6
B (1)	Clybiau adloniant, Theatrau, Ystafelloedd Bandiau ac Amgueddfeydd - (elusen gofrestredig)	80% £26,078	20% £5,161	100% £31,239	£3,871	8
B (2)	Clybiau adloniant, Theatrau, Ystafelloedd Bandiau ac Amgueddfeydd - (heb fod yn elusen gofrestredig)	0% £0	100% £134,396	100% £134,396	£13,440	30
C (1)	Sefydliadau Addysgol statudol neu ar agor i bawb	80% £6,990	20% £1,361	100% £8,351	£1,021	1
C (2)	Sefydliadau Addysgol	80% £405,090	0% £0	80% £405,090	£0	11
CH	Siopau Elusen	80% £78,355	0% £0	80% £78,355	£0	19
D	Sefydliadau Adfywio, Cyflogaeth ac Ailsefydlu	80% £6,567	20% £1,279	100% £7,846	£959	1
DD	Cydraddoldeb Hiliol a Lleiafrifoedd Ethnig	80% £0	20% £0	100% £0	£0	0
E (1)	Elusen gofrestredig neu at bwrpas elusennol lle mae eu hamcanion hefo gwerthoedd cyffredin sylweddol ag amcanion y Cyngor ac sy'n gwasanaethu trigolion yr Ynys yn bennaf	80% £92,564	20% £18,026	100% £110,590	£13,520	6
E (2)	Heb fod yn elusen gofrestredig ond lle mae eu hamcanion hefo gwerthoedd cyffredin sylweddol ag amcanion y Cyngor ac sy'n gwasanaethu trigolion yr Ynys yn bennaf	0% £0	100% £18,769	100% £18,769	£1,877	5
F (1)	Elusen gofrestredig neu at bwrpas elusennol lle mae eu hamcanion yn cael eu cynorthwyo gan y Cyngor ond naill ai nad oes gwerthoedd cyffredin sylweddol gydag amcanion y Cyngor neu nad ydynt yn gwasanaethu trigolion yr Ynys yn bennaf.	80% £0	0% £0	80% £0	£0	0
F (2)	Heb fod yn elusen gofrestredig lle mae eu hamcanion yn cael eu cynorthwyo gan y Cyngor ond naill ai nad oes gwerthoedd cyffredin sylweddol hefo amcanion y Cyngor neu nad ydynt yn gwasanaethu trigolion yr Ynys yn bennaf.	0% £0	80% £1,287	80% £1,287	£129	1
FF	Meysydd Sioe Amaethyddol	80% £21,928	20% £4,270	100% £26,198	£3,203	1
G	Dim un o'r categorïau uchod.	Amrywiol £0	Amrywiol £0	Amrywiol £0	£0	0
	Cyfansymiau – 2019/20	£817,747	£219,640	£1,037,387	£64,338	147
	Cost Band D – 2019/20				£2.04	

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	24 Mawrth 2026
Pwnc:	Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2026-2056
Aelod Portffolio:	Cynghorydd Carwyn E Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Ned Michael
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Darren Gerrard – Rheolwr Busnes Tai 01248 752265
Aelod Lleol:	Pob Aelod

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau
Yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i ni gyflwyno ein cais am ein Lwfans Atgyweiriadau Mawr, ynghyd â Chynllun Busnes 30 Mlynedd y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), erbyn 31 Mawrth er mwyn sicrhau ein Lwfans Atgyweiriadau Sylweddol o oddeutu £2.7m ar gyfer 2026-27. Fel Awdurdod Lleol sydd wedi parhau i gadw eu stoc tai ac bellach yn datblygu cartrefi newydd ein hunain mae heriau ariannol sylweddol yn ein wynebu i'r dyfodol os ydym am wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o fod yn adeiladu cartrefi newydd, gwireddu SATC 2023, dad garboneiddio ein stoc tai presennol a chadw lefelau rhenti mor isel a phosib ar gyfer ein tenantiaid a parhau i gael Cynllun Busnes sy'n hyfyw hir dymor. Mae Cynllun Busnes 30 mlynedd y CRT ynghlwm ac, wedi iddo gael ei gymeradwyo, bydd yn cael ei fformadu yn yr arddull corfforaethol. Rwyf yn argymhell fod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:- A1. Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) 2026-2056 i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru. 1.0 Cefndir 1.1 Paratowyd yr Adroddiad a'r Cynllun Busnes hwn ar y cyd â Swyddogion o'r Gwasanaethau Tai a Chyllid a'r Cynllun Busnes yw'r arf cynllunio ariannol pennaf ar gyfer cyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor. Yn benodol, mae'r Cynllun Busnes yn dangos:-

- sut mae'r Cyngor yn sicrhau fod y stoc gyfan yn cydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) - er y bydd rhai eiddo yn parhau i gael eu dynodi fel 'methiannau derbynol';
- y buddsoddiad sydd ei angen i ariannu ein rhaglen datblygu tai cyngor newydd.

1.2 Trwy ei Gyfrif Refeniw Tai, mae'r cyngor yn rheoli ac yn berchen ar 4095 eiddo a 581 o garejys ledled yr Ynys. Trwy gydol cyfnod y Cynllun Busnes hwn byddwn yn gweld cynnydd o dros 25% yn ein stoc dai, i dros 5000 eiddo, er mwyn cwrdd â'r angen tai lleol cynyddol. Ar hyn o bryd mae gennym dros 950 o bobl ar y rhestr aros Tai Cymdeithasol ac mae hyn yn cynnwys 72 o aelwydydd sydd mewn llety dros dro ar yr Ynys.

1.3 Mae Cynllun Busnes y CRT (Atodiad 1) yn cyfrannu at yr holl themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cyfrannu'n bennaf at sicrhau bod gan pawb yr hawl i alw rhywle yn gartref, Gofal Cymdeithasol a Lles yn ogystal a Datblygu'r Economi.

1.4 Mae'r CRT yn parhau i gael ei glustnodi ar gyfer swyddogaethau Landlord y Cyngor sy'n ymwneud â stoc dai'r Cyngor. Oherwydd bod y cyfrif wedi'i glustnodi, nid yw'r Cyngor yn gallu defnyddio arian o'r gronfa gyffredinol i gyllido tai cyngor.

2.0 Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)

2.1 Rydym yn parhau i fod yn llawn ymrwymedig i gyflawni SATC ac yn parhau i weithio tuag at sicrhau bod ein stoc yn cwrdd â meini prawf penodol sy'n ymwneud â iechyd, diogelwch a chyffordd, gan gynnwys gofynion ar gyfer gwresogi, inswleiddio, mân awyru a mynediad at gyfleusterau sylfaenol.

Dywed Safon Ansawdd Tai Cymru y dylai bob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:

- Mewn cyflwr da.
- Yn ddiogel.
- Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda.
- Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
- Wedi eu rheoli'n dda.
- Wedi eu lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.
- Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i'r graddau y mae hynny'n bosib (e.e. gofynion pobl ag anableddau penodol).

3.0 Rhaglen Gyfalaf 2026-2027

3.1 Mae'r Cynllun Busnes yn cynnwys rhaglen gyfalaf gwerth oddeutu £16m. Mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwaith allanol, gwaith yn gysylltiedig â risg tân, asbestos, addasiadau ar gyfer yr anabl a gwaith effeithlonrwydd ynni. Mae'r gyllideb hefyd yn caniatáu ar gyfer cydymffurfio'n llawn â'r SATC trwy dargedu methiannau derbynol a safonau amgylcheddol.

3.2 Gwaith Ynni a Datgarboneiddio:- Rydym yn bwriadu parhau â'r rhaglen hon yn 2026/27 a chlustnodwyd £4m yn y gyllideb i dargedu 550 o osodiadau systemau paneli solar gyda batri i storio trydan a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol tuag at dargedau effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon a gostwng costau i'n tenantiaid.

Byddwn yn cynnal ymarfer arfarnu a chynllunio buddsoddiad i arfarnu perfformiad ynni, targedau lleihau carbon a chydymffurfio â'r Llwybr Ynni er mwyn paratoi ar gyfer disgwyliadau SATC.

3.3 Mae darpariaeth o £7.3M wedi'i gynnwys yn y gyllideb ar gyfer gwaith trwsio a chynnal a chadw ymatebol, cynnal a chadw cylchol a chynlluniedig .

